



---

# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG IECHYD CYHOEDDUS CYMRU AM COVID-19

---

Cyflwynir i'r Pwyllgor Iechyd,  
Gofal Cymdeithasol a  
Chwaraeon

23 Medi 2020



# Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, dydd Mercher 23 Medi 2020

## Cynnwys

1.	<b>Cyflwyniad</b> .....	4
2.	<b>Yr Epidemioleg Bresennol</b> .....	5
2.1	Y niferoedd yn fyd-eang.....	5
2.2	Y niferoedd yn y DU.....	5
2.3	Y niferoedd yng Nghymru.....	5
2.4	Yr epidemioleg yng Nghymru.....	5
2.5	Achosion lluosog a brigadau o achosion.....	6
2.6	Marwolaethau.....	7
3.	<b>Trefniadau Profi Olrhain Diogelu</b> .....	8
3.1	Cefndir.....	8
3.2	Gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi Profi Olrhain Diogelu ..	10
3.3	Torri Rheolau Data.....	28
4.	<b>Yr hyn a ddysgwyd hyd yma drwy Profi Olrhain Diogelu</b> .....	29
5.	<b>Paratoi at Gyfnod y Gaeaf</b> .....	33
6.	<b>Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth Hyrwyddo Brechu rhag y Ffliw</b>	34
7.	<b>Atodiad A: Cam 2 Cynllun Gweithredu Profi Olrhain Diogelu</b> .....	37

## 1. Cyflwyniad

Cyflwynir y dystiolaeth ysgrifenedig hon i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon cyn sesiwn dystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ddydd Mercher 23 Medi 2020. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i wneud i gefnogi Strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru – mae'n ystyried yr hyn a wnaed hyd yma a'r gwersi a ddysgwyd, y paratoadau at gyfnod y gaeaf, a sut y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at hyrwyddo'r negeseuon ehangach ym maes iechyd y cyhoedd sy'n annog pobl i gael eu brechu rhag y ffliw. Fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus cenedlaethol Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru a'r system ehangach yn ystod ein hymateb i bandemig y coronafeirws. Rydym wedi arwain y system drwy roi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth arbenigol ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae hyn wedi golygu gweithio gydag ystod o bartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Rhoi cyngor am iechyd y cyhoedd i Lywodraeth Cymru er mwyn ei helpu i ddatblygu polisiau
- Cyflawni swyddogaethau a gwasanaethau allweddol ym maes iechyd y cyhoedd (e.e. diogelu iechyd ac ymateb microbioleg i'r feirws a'r dull o'i reoli)
- Cefnogi byrddau iechyd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i roi'r Strategaeth Profi Olrhain Diogelu ar waith
- Datblygu a rhannu gwybodaeth a gwybodaeth sy'n deillio o gadw gwyliadwriaeth i'r system ehangach (e.e. adroddiadau cadw gwyliadwriaeth COVID-19)
- Ymgymryd â gwaith ymchwil, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth ryngwladol i lywio polisi a chefnogi ymateb parhaus Cymru (e.e. arolwg cenedlaethol ymgysylltu â'r cyhoedd a sganio gorwelion rhyngwladol).

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn ffurfiol i'n staff am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb parhaus yn ystod y pandemig. Maent yn parhau i weithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd ac i helpu Cymru wrth inni ymateb i COVID-19.

## 2. Yr Epidemioleg Bresennol

### 2.1 Y niferoedd yn fyd-eang

Mae'r pandemig yn dal i effeithio ar wledydd yn y pedwar ban. Am 15.35 o'r gloch ar 17 Medi 2020, roedd 29,737,453 o achosion wedi'u cadarnhau a 937,391 o bobl wedi marw drwy'r byd<sup>1</sup>.

### 2.2 Y niferoedd yn y DU

Cyrhaeddodd y don gyntaf ei hanterth ym mhedair gwlad y DU ddechrau mis Ebrill 2020. Ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud, lleihaodd nifer yr achosion a nifer y marwolaethau o ganol mis Ebrill ymlaen. Ers canol mis Gorffennaf, mae cyfanswm nifer yr achosion yn y DU wedi bod yn cynyddu, a hynny ar gyfradd gynyddol. Ar 17 Medi 2020 (15.45 o'r gloch, Ffynhonnell: dangosfwrdd COVID Llywodraeth y DU), roedd 381,614 o achosion wedi'u canfod yn y DU. Gwaetha'r modd, mae 41,705<sup>[2]</sup> o bobl wedi marw yn y DU (17 Medi 2020).

### 2.3 Y niferoedd yng Nghymru

Roedd yr haint yn ei anterth yng Nghymru yn ystod pythefnos cyntaf mis Ebrill 2020. Ar 17 Medi 2020, roedd 20,233 o achosion wedi'u cadarnhau, a 1,601 o farwolaethau<sup>[3]</sup>. **2.4 Yr epidemioleg yng Nghymru**

Cynyddodd digwydded cenedlaethol yr achosion a gadarnhawyd yng Nghymru yn ystod wythnos 37 (yn dod i ben ar 13 Medi 2020) o'i chymharu â'r wythnos flaenorol, ac mae wedi cyrraedd lefel a welwyd ddiwethaf ym mis Mai 2020. Gwelwyd cynnydd yn y digwyddedd mewn gwahanol ranbarthau yng Nghymru, ond yn fwyaf amlwg felly yng Nghaerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd. Sefydlwyd safleoedd profi cymunedol symudol yn ddiweddar yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf. Mae cyfyngiadau wedi'u cyflwyno yn y llefydd yma ar hyn o bryd. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill Cymru, mae niferoedd dyddiol yr achosion a gadarnhawyd yn isel ac yn sefydlog. Wrth edrych ar oedrannau penodol, mae digwyddedd yr achosion a gadarnhawyd ar hyn o bryd ar ei uchaf ymhlith pobl o dan 50 oed. Arhosodd nifer y derbyniadau i'r ysbyty a gadarnhawyd yn sgil COVID-19 yn isel ac yn sefydlog yn ystod wythnos 37.

Am 1pm, 17 Medi 2020, roedd cyfanswm cronus o 20,233 o achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 ymhlith trigolion Cymru, ac mae hyn yn cynnwys achosion a brofwyd mewn labordai y tu allan i GIG Cymru. Gan fod data'n dal i gael ei lanhau ar ôl cyfuno'r setiau data hyn, efallai y bydd nifer bychan o achosion wedi'u dyblygu yn y ffigur cronus hwn.

<sup>1</sup> [https://covid19.who.int/?gclid=EAlalQobChMIIntXk48zy6wIVjM\\_tCh1gqg-WEAAYASAAEgJTbPD\\_BwE](https://covid19.who.int/?gclid=EAlalQobChMIIntXk48zy6wIVjM_tCh1gqg-WEAAYASAAEgJTbPD_BwE)

<sup>2</sup> [https://coronavirus.data.gov.uk/?\\_ga=2.195989608.51722093.1600253429-1160851531.1600253429](https://coronavirus.data.gov.uk/?_ga=2.195989608.51722093.1600253429-1160851531.1600253429)

<sup>3</sup> <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

O'r holl achosion sydd wedi'u cadarnhau yng Nghymru, cafodd 23% eu profi a'u cadarnhau yn labordai GIG Cymru, a chleifion mewnol oedd y rhain a ddarparodd samplau tra'r oeddent yn yr ysbyty. Roedd 62% yn unigolion yn y gymuned (gan gynnwys gweithwyr allweddol a brofwyd drwy adrannau iechyd galwedigaethol ac unedau profi cymunedol; staff a phreswylwyr cartrefi gofal; unigolion mewn lleoliadau caeedig eraill; ac unigolion a fu mewn adrannau i gleifion allanol mewn ysbytai). At hynny, cafodd 15% o'r achosion eu profi a'u cadarnhau mewn labordai y tu allan i GIG Cymru.

Efallai y bydd cyfran o'r unigolion sydd wedi cael prawf positif yn yr wythnosau diwethaf wedi'u canfod drwy gael eu sgrinio ar ôl brigiadau o achosion ac achosion lluosog mewn amrywiaeth o leoliadau, neu drwy brofion manylach yn y gymuned gydag unedau profi symudol. Yn ogystal ag achosion symptomatig go iawn o COVID-19, gall rhai o'r profion positif sydd wedi'u cynnwys fod yn ganlyniadau positif lefel isel lle cafodd yr unigolyn brawf negatif dilynol o fewn cyfnod byr wedyn, tua 2 i 3 diwrnod ar ôl rhoi'r sampl gwreiddiol. Gellir dehongli'r rhain fel canlyniadau 'positif anghywir' os bu i'r unigolyn barhau'n asymptomatig. Nid yw'r rhain yn cael eu hepgor o'r setiau data cadw gwyliadwriaeth ar hyn o bryd.

Ar 13 Medi 2020, roedd 3,723 o achosion wedi'u cadarnhau lle cafodd pobl eu derbyn i'r ysbyty (h.y. cael prawf positif o fewn 28 diwrnod cyn cael eu derbyn, neu lai na 2 ddiwrnod ar ôl cael eu derbyn). Bu 423 o achosion o dderbyn pobl i ofal critigol. Ar 13 Medi 2020, roedd 53 o achosion wedi'u cadarnhau ar wardiau ysbytai, a phump ohonynt ar wardiau gofal critigol.

Cymedr oedran y cleifion sydd wedi cael SARS-CoV2 wedi'i gadarnhau mewn ysbytai yw 70.9. Cymedr oedran cleifion unigol sydd wedi cael SARS-CoV2 mewn lleoliadau eraill yw 45.4, a gallai hyn gynnwys unigolion nad ydynt yn symptomatig sydd wedi cael profion sgrinio. Yn ystod wythnos 37, cynyddodd cyfradd y digwyddedd ym mhob grŵp oedran, gyda'r digwyddedd mwyaf ymhlith pobl 30-49 oed.

## **2.5 Achosion lluosog a brigiadau o achosion**

Am 9am ar 14 Medi 2020, mae'r data dros dro yn dangos bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael adroddiadau am 783 o achosion lluosog anadlol/achosion lluosog o COVID-19 mewn cartrefi gofal ers 1 Mawrth 2020. Roedd gan 57% o'r cartrefi un achos neu fwy o SARS-COV2 wedi'i gadarnhau yn gysylltiedig â'r digwyddiad ar Tarian (y system genedlaethol i reoli achosion a digwyddiadau). Nifer cronrus y staff a'r preswylwyr a oedd wedi cael prawf positif oedd 2,809. Mae polisiau a'r modd y caiff strategaethau profi eu rhoi ar waith yn lleol wedi newid dros amser, a gallai hyn effeithio ar y niferoedd a'r tueddiadau wrth edrych ar yr achosion unigol a'r achosion lluosog sydd wedi'u cadarnhau. Nid yw achosion lluosog lleol nad ydynt wedi'u cofnodi ar Tarian wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn.

Mewn rhannau o Gymru, ceir achosion y gellir eu cysylltu â chlystyrau a brigiadau o achosion. Mae'r rhain yn gysylltiedig â lleoliadau amrywiol, ac yn cynnwys dod i gyswllt â'r haint mewn tafarndai, partïon mewn tai, ysbytai, gweithdai a ffatrioedd. Mae hefyd yn cynnwys dod i gyswllt â haint sydd wedi'i fewnforio ar ôl i bobl deithio dramor.

Mae profion manylach yn y gymuned wedi'u sefydlu ar gyfer rhannau o Awdurdod Lleol Caerffili ac Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf, ar ôl cynnydd yn nifer yr achosion sydd wedi'u cadarnhau yn yr ardaloedd hyn. Yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Caerffili a Rhondda Cynon Taf, mae cyfyngiadau hefyd wedi'u cyflwyno a mwy o gamau'n cael eu cymryd i sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol.

Cofnodwyd 45 o achosion anadlol newydd ar system rheoli achosion a digwyddiadau Tarian yn wythnos 37; mae hyn yn gynnydd ers wythnos 36. O'r 45 o achosion anadlol, roedd 24 mewn cartrefi preswyl, 11 mewn lleoliadau eraill, 6 mewn ysgolion neu feithrinfeydd, a 2 mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol eraill.

## **2.6 Marwolaethau**

Ar 17 Medi 2020, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael adroddiadau am 1,601 o farwolaethau yn dilyn achosion wedi'u cadarnhau, a hynny drwy ddull casglu data cyflym ar farwolaethau mewn ysbytai a chartrefi gofal. Cymedr oedran pobl yn yr achosion o farwolaethau a gafodd eu hadrodd drwy ddata cyflym ar farwolaethau oedd 79.1 (95% CH 78.6 – 79.7). O ran nifer wythnosol y marwolaethau sydd wedi'u hadrodd drwy ddata cyflym ar farwolaethau, cyrhaeddwyd penllanw yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Ebrill 2020, sef 236. Roedd hyn wythnos ar ôl penllanw nifer yr achosion a gadarnhawyd yng Nghymru.

Yn ôl data dros dro o dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd 4 o farwolaethau o COVID-19 ymhlith preswylwyr Cymru lle crybwyllwyd COVID-19 ar y dystysgrif farwolaeth yn ystod wythnos 36 (yr wythnos a ddaeth i ben ar 4 Medi 2020). Mae hyn wedi gostwng o 412 ar ei anterth yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill 2020. O blith y marwolaethau a gofrestrwyd yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 4 Medi 2020, adroddir bod 3 wedi digwydd mewn ysbytai ac 1 gartref. Yn ôl dadansoddiad EuroMoMo, mae nifer wythnosol y marwolaethau o bob achos yng Nghymru wedi lleihau ac ar lefel y byddid yn ei disgwyl yr adeg hon o'r flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth gan gynnwys y data diweddaraf sydd ar gael i'w gweld drwy ddilyn [dolen cadw gwylidwriaeth gyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) (ar gael yn gyhoeddus).

*\*Noder bod yr hyperddolenni yn y troednodiadau yn arwain at wybodaeth a gaiff ei diweddarau'n ddyddiol. O ganlyniad, gall y ffigurau fod yn wahanol i'r rheini a geir yn y papur hwn.*

## **3. Trefniadau Profi Olrhain Diogelu**

### **3.1 Cefndir**

Ar 13 Mai 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol *Strategaeth Profi Olrhain Diogelu* Llywodraeth Cymru. Strategaeth oedd hon wedi'i llywio gan gyngor arbenigol am iechyd y cyhoedd a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y Cynllun Ymateb Er Mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd. Mae'r Strategaeth yn nodi camau manwl a fydd yn cael eu cymryd drwy'r holl system i gefnogi Fframwaith Adferiad Llywodraeth Cymru.

Mae rolau a chyfrifoldebau ystod o asiantaethau a'r cyhoedd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth. Dyma sut y disgrifir y rhai sy'n berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru:

*'Darparu arweinyddiaeth a chyngor arbenigol ar ddulliau iechyd y cyhoedd. Bydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o olrhain cysylltiadau, cynghori ar samplu a phrofi, dadansoddi profion mewn labordy, gwyliadwriaeth iechyd a darparu cyngor diogelu iechyd a dadansoddiad arbenigol o ledaeniad y feirws yn ein cymunedau drwy ystod o ddangosyddion gwyliadwriaeth iechyd'.*

Yn dilyn hynny, sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Rhaglen Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r modd y byddai'r Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. At hynny, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru raglen fewnol i lywio'i chyfraniad at y rhaglen Profi Olrhain Diogelu. Sefydlwyd Rhaglen Ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynnar ym mis Mai 2020, a honno'n cynnwys cyfres o ffrydiau gwaith. Yn eu plith mae:

- olrhain cysylltiadau a rheoli achosion
- samplu a phrofi
- cadw gwyliadwriaeth
- cyfathrebu ac ymgysylltu
- digidol
- pobl
- gwybodaeth a gwersi rhyngwladol
- ymchwil ac arfarnu
- ansawdd, diogelwch, llywodraethu gwybodaeth a risg
- cyllid a'r gadwyn gyflenwi.



Roedd Cynllun Cam 1 (a barhaodd tan ddechrau mis Mehefin 2020) a Chynllun Cam 2 (diwedd mis Mehefin tan ddiwedd mis Awst 2020 – gan ei ymestyn wedyn tan ddiwedd mis Medi 2020) yn ymgorffori cynnyrch y ffrydiau gwaith. Cyflwynwyd dull rheoli ar gyfer y rhaglen sy'n defnyddio methodolegau cydnabyddedig ac adnoddau cynllunio integredig arbenigol. Roedd hyn yn ein galluogi i ddatblygu cynllun gweithredu cadarn fesul cam, er mwyn mynd ati'n gyflym i greu nifer o gynhyrchion allweddol a fyddai'n angenrheidiol er mwyn ymateb yn effeithiol i COVID-19.

Cynhaliwyd asesiad o'r cynlluniau ddiwedd mis Gorffennaf/ddechrau mis Awst 2020, gan roi cyfle i adolygu'r cynnydd, dangos y llwyddiannau, a llywio cam nesaf y gwaith cynllunio.

Mae cynllun pellach i arwain y sefydliad i 2021 wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd hwn yn cynnwys ein hymateb parhaus i'r pandemig ym maes diogelu iechyd, gwaith yn canolbwyntio ar y niwed ehangach nad yw'n ymwneud â COVID i iechyd a lles y boblogaeth, ailgychwyn ein gwasanaethau, a'n hadferiad sefydliadol.

Nod y cynllun yw ein galluogi i ailgychwyn gwasanaethau penodol gan gydnabod mai'r ymateb parhaus i ddiogelu iechyd pobl fydd ein prif flaenoriaeth am weddill 2020, fan lleiaf. Ar 18 Medi 2020, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i weithredu o dan lefel ymateb argyfwng 'uwch', fel yr amlinellir yn ein Cynllun Ymateb mewn Argyfwng.

Caiff adroddiadau cynnydd rheolaidd am y modd y rhoddir y Cynllun ar waith eu hadolygu gan Grŵp Aur Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor o'r blaen, mae Bwrdd a Phwyllgorau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i weithredu o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru ac yn unol ag Egwyddorion Llywodraethu Cymru Gyfan, gyda rhai amrywiadau wedi'u cymeradwyo i'r Rheolau Sefydlog. O fis Mawrth 2020 ymlaen, mae'r Bwrdd wedi gweithredu o bell ac wedi cael rhith-gyfarfodydd, a hynny'n amlach na'r arfer. Ym mis Gorffennaf 2020, argymhellodd y Bwrdd y dylid ffrydio'i gyfarfodydd yn fyw.

### **3.1.1 Darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i ddiogelu iechyd**

Fel rhan o'n rôl statudol i ddiogelu iechyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol i amrywiaeth eang o bartneriaid a strwythurau ymateb, gan gynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, y system cyfiawnder troseddol, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol. Yn ystod pob cam o'r ymateb, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyngor arbenigol am iechyd y cyhoedd i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ac mae'n parhau i wneud hynny.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd briffio Tîm y Prif Swyddog Meddygol ddwywaith yr wythnos, a bydd Tîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol yn cael trafodaethau

sawl gwaith yr wythnos yn ogystal. Mae'r rhain yn parhau a cheir trafodaethau wythnosol rhwng uwch arweinwyr penodol i gyd-fynd â hwy.

Ymhlith yr enghreifftiau eraill nodedig o'r gefnogaeth a roddir i Lywodraeth Cymru mae:

- Cyngor arbenigol am atal a rheoli heintiau a chyfarpar diogelu personol, gan gynnwys canllawiau atodol i weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol
- Canllawiau ym maes iechyd y cyhoedd i gartrefi gofal preswyl fel y disgrifiwyd eisoes
- Canllawiau i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ynghylch camau ataliol mewn cartrefi gofal a lleoliadau caeedig
- Cyngor penodol am ddatblygu system i brofi gweithwyr hanfodol er mwyn llywio polisi Llywodraeth Cymru
- Cyngor ar gyfer ystyried gwersi rhyngwladol a ddysgir o COVID-19 a'r niwed anuniongyrchol ehangach sy'n effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth.

## **3.2 Gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi Profi Olrhain Diogelu**

Mae'r sefydliad wedi gwneud llawer o waith i helpu i roi'r rhaglen Profi Olrhain Diogelu ar waith. Mae'r prif gamau sydd wedi'u cyflawni hyd yma i'w gweld isod.

### **3.2.1 Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cefnogaeth weithredol i ddatblygu a darparu'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau a sefydlwyd yng Nghymru, gan gynnwys datblygu proffiliau swyddi, pecyn e-hyfforddi ar gyfer olrhain cysylltiadau, nodiadau gweithredol, sgriptiau, gweithdrefnau gweithredu safonol, siartiau llif a setiau data.

Yn ogystal, rhoddwyd cyngor a chymorth modelu i lywio gweithgarwch posibl o ran achosion a chysylltiadau a'r gofyniad sy'n deillio o hynny o ran adnoddau.

Er mwyn cyflawni ei rôl genedlaethol fel rhan o Profi Olrhain Diogelu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am greu fframwaith ar gyfer olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi cyngor a chymorth arbenigol ym maes diogelu iechyd y cyhoedd, a hynny ar lefelau rhanbarthol a lleol.

### **3.2.2 System ddigidol i reoli'r gwaith o olrhain cysylltiadau (Microsoft Dynamics)**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cefnogaeth dechnegol sylweddol i ddatblygu'r system ddigidol ar gyfer rheoli'r gwaith o olrhain cysylltiadau (Microsoft Dynamics).

Mae hyn wedi golygu gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ddarparu arbenigedd technegol a chyngor ar gyfer dylunio ac adeiladu'r system Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (CRM), gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau ledled Cymru.

### **3.2.3 Sefydlu Canolfan Gyswllt Genedlaethol a Chell Ymateb Genedlaethol i Ddiogelu Iechyd**

Mae COVID-19 Cam 2: Fframwaith Gweithredu Canfod Achosion ac Olrhain Cysylltiadau, sef fframwaith wedi'i greu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau yng Nghymru, yn cyflwyno'r model tair haen y cytunwyd arno ar gyfer olrhain cysylltiadau, ac yn amlinellu'r trefniadau gweithredu manwl. Nod y Fframwaith yw cefnogi system iechyd y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddilyn dull cyffredin o weithio ar sail tystiolaeth ac arbenigedd. I gyd-fynd â'r dull tair haen drwy Gymru ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ceir seilwaith digidol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth mewn amser real.

Mae hyn yn golygu bod modd ymateb yn gyflym i glystyrau, achosion lluosog a brigiadau o achosion o COVID-19 yn sgil cysondeb yr hyfforddiant, y system ddigidol a'r model cyflawni. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy yn yr wythnosau a'r misoedd diwethaf wrth ddefnyddio'r capasiti olrhain cysylltiadau mewn unrhyw ran o Gymru mewn rhanbarthau lle mae achosion a brigiadau o achosion i'w cael.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu'r Haen Ymateb Cenedlaethol, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith gweithredu cenedlaethol, gan gynnwys canllawiau, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, sgrïptiau olrhain cysylltiadau, protocolau a deunyddiau ategol. Mae'r haen genedlaethol yn cydlynu ar lefel Cymru gyfan, ac yn cefnogi Llywodraeth Cymru drwy roi cyngor er mwyn iddi allu rheoli'r pandemig yn strategol. Mae hefyd yn sicrhau bod cyngor arbenigwyr Diogelu Iechyd ar gael i'r holl Gelloedd Ymateb Rhanbarthol.

Mae'r Haen Ymateb Cenedlaethol hefyd yn bwynt cyswllt sy'n galluogi timau Profi Olrhain Diogelu yng Nghymru i rannu gwybodaeth. Mae hefyd yn galluogi Cymru a'r cenhedloedd i eraill rannu gwybodaeth am achosion positif ac/neu i rannu manylion cyswllt a thrafod materion trawsffiniol eraill, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag iechyd porthladdoedd.

Gan hynny, fel rhan o *Profi Olrhain Diogelu*, rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth olrhain cysylltiadau yw rhoi cyngor arbenigol, arweiniad a hyfforddiant i bartneriaid; sicrhau bod adnoddau arbenigol ar gael er mwyn cynghori a rhoi cefnogaeth addas i'r lefel ranbarthol am achosion cymhleth, clystyrau cymhleth, achosion lluosog cymhleth, a brigiadau o achosion; rhoi cyngor technegol i Lywodraeth Cymru; a darparu nifer o swyddogaethau ar lefel

genedlaethol gan gynnwys llinell gymorth ar gyfer ymholiadau proffesiynol. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys y canlynol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu a chaiff y gweithgareddau eu dadansoddi'n barhaus i sicrhau bod y model yn gymesur â'r galw.

Mae Haen Ymateb Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei darparu drwy Ganolfan Gyswilt Genedlaethol sy'n rhoi un pwynt cyswilt ar gyfer yr holl ymholiadau gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n cyrraedd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn darparu Cell Ymateb Genedlaethol i Ddiogelu Iechyd. Mae'r Gell Ymateb Genedlaethol i Ddiogelu Iechyd yn gwneud y canlynol:

- Rhoi cyngor arbenigol a chefnogaeth addas i'r rhaglen *Profi Olrhain Diogelu* am ddatblygu gwaith olrhain cysylltiadau yn y dyfodol
- Rhoi adnodd arbenigol i gynghori am glystyrau, achosion lluosog a brigiadau o achosion cymhleth
- Rhoi cyngor arbenigol am Ddiogelu Iechyd i'r rheini sy'n creu polisïau a chanllawiau wrth ymateb i COVID-19.

Mae'r Gell yn defnyddio ystod o staff gan gynnwys Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, Ymgynghorwyr Diogelu Iechyd, Nyrsys/Ymarferwyr Diogelu Iechyd, Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymarferwyr Arbenigol, a staff cymorth gweinyddol. Er bod amrywiaeth o swyddi fan hyn, mae cyfanswm nifer y staff sydd ag arbenigedd benodol ym maes diogelu iechyd yn fychan iawn wrth ystyried maint y galw am eu hamser a'u sgiliau. Gan hynny, i helpu'r staff arbenigol hyn, mae Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd a Nyrsys/Ymarferwyr Iechyd y Cyhoedd yn cefnogi'r Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, yr Ymgynghorwyr Diogelu Iechyd a'r Nyrsys Diogelu Iechyd Arbenigol. Maent wedi'u symud i'r Gell ac wedi cael hyfforddiant arbenigol yn hyn o beth.

Mae'r Gell Ymateb Genedlaethol i Ddiogelu Iechyd yn cefnogi'r haen ranbarthol yn rhagweithiol ac yn ymatebol, gan roi cyngor a chefnogaeth addas i ymateb i achosion neu senarios cymhleth, ac mae perthnasau gweithio agos wedi'u creu.

Er mwyn cefnogi Profi Olrhain Diogelu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi symud adnoddau staff sylweddol drwy'r holl sefydliad i gefnogi'r rolau a ddisgrifir uchod. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod yr adnodd hwn yn hyblyg, gyda'r gallu i ymateb i heriau wrth iddynt newid drwy Gymru, gan gynnwys y potensial i ymateb i reoli achosion lluosog a brigiadau sy'n digwydd ar yr un pryd wrth inni symud drwy'r cyfnod hwn yn y pandemig.

### **3.2.4 Samplu a Phrofi**

#### **3.2.4.1 Samplu**

Ers dechrau'r pandemig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn datblygu capasiti ar gyfer cynnal profion COVID-19 yng Nghymru, ac mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu capasiti ar gyfer canolfannau samplu a samplu

ar y we. Mae hyd a lled gwaith samplu a phrofi Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd yma wedi cynnwys:

- cefnogi byrddau iechyd i gynyddu'r capasiti samplu ar gyfer profion antigenau a gwrthgyrff ledled GIG Cymru i fodloni gofynion cynllun profi Llywodraeth Cymru
- cynyddu'r capasiti profi yn labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru a chael gafael ar gapasiti ychwanegol o bob rhan o'r DU
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd (sy'n rheoli canolfannau samplu) i greu proses atgyfeirio a chanlyniadau syml o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer Cymru
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a phartneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar y capasiti samplu a geir mewn Unedau Profi Coronafeirws, Canolfannau Samplu'r Boblogaeth ac unedau profi symudol, ynghyd ag unrhyw gapasiti ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol.

Ceir bellach fodel cymysg ar gyfer samplu sy'n cynnwys Unedau Profi Coronafeirws sy'n cael eu cynnal gan fyrddau iechyd, Canolfannau Samplu'r Boblogaeth, y cyfeirir atynt yn aml fel canolfannau profi drwy ffenest y car, ac unedau profi symudol. Trosglwyddwyd yr Unedau Profi Symudol o'r lluoedd arfog ddiwedd mis Awst 2020. Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am 15 o'r unedau, gyda chefnogaeth darparwr masnachol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr. Mae tair uned arall yng ngofal Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a'r rheini'n ymateb i frigiadau o achosion. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ynghylch safleoedd samplu y gall pobl alw i mewn iddynt. Bydd y rhain yn ychwanegu capasiti samplu yn ogystal â rhoi gwell mynediad i samplu mewn lleoliadau penodol yng Nghymru.

### **3.2.4.2 Profi**

Ers dechrau'r pandemig, mae gwasanaeth microbiolog Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu ei gyfrifoldebau i arwain y system. Ynghyd â Llywodraeth Cymru, mae wedi ceisio caffael platfformau ac adweithyddion ar ran yr holl wasanaethau microbiolog feddygol yng Nghymru (mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru saith labordy microbiolog feddygol yng Nghymru, tra bo gan fyrddau iechyd dri ohonynt). Gwnaed hyn i sicrhau bod gennym ddarpariaeth ddigonol drwy Gymru i gyd er mwyn ateb anghenion capasiti profi drwy gydol y pandemig. Y nod fu cael platfformau canolog a all gynnal niferoedd mawr o brofion, ar unrhyw adeg, cyn darparu capasiti lleol i gefnogi amseroedd prosesu cyflymach ar gyfer canlyniadau drwy blatfformau canolog eu maint a pheiriannau sy'n gallu profi am antigenau'n gyflym drwy Gymru.

Er mwyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru allu gwneud hyn, mewn sefyllfaoedd hynod o heriol, rydym wedi gorfod addasu i'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod

digon o gapasiti profi. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid fel yr Hwb Gwyddorau Bywyd a Llywodraeth Cymru i ganfod a chaffael platfformau sy'n fwy datblygedig yn dechnegol ac yn gofyn am fwy o weithlu a sgiliau newydd, ynghyd â cheisio creu cytundebau masnachol i ddod â phlatfformau newydd i'r DU.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i gynyddu capasiti profi Cymru. Mae hyn wedi digwydd drwy ychwanegu platfformau sy'n prosesu nifer fawr o brofion yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Pharc Magden, ynghyd â'r ddarpariaeth arfaethedig o beiriannau PCR (antigen) maint canolig a chyflym ym mhob un o'r labordai microbioleg feddygol yng Nghymru.

Ym mis Awst 2020, wrth ymateb i gais gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cyflwynwyd a chymeradwywyd achos busnes i gynyddu capasiti labordai a chyflymu amseroedd prosesu drwy Gymru. Bydd y cynnig yn arwain at gapasiti profi cyflym (o dan 4 awr) am COVID-19 ar bob safle ysbyty aciwt ynghyd â phrofi niferoedd uchel yn rhanbarthol yn brydlon (llai na 12 awr).

Bydd y newidiadau i'r gwasanaeth yn cynnwys:

- staff a chyfarpar ychwanegol i labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn labordai profi Ysbyty Athrofaol Cymru (Caerdydd), Ysbyty Treforys (Abertawe) ac Ysbyty Glan Clwyd (Y Rhyl), er mwyn iddynt allu gweithio 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos
- creu chwe Labordy Gwib ychwanegol mewn ysbytai drwy Gymru, a'r rhain yn cynnwys cyfarpar profi cyflym, o dan bedair awr, a chyfarpar profi newydd am gyflyrau eraill er mwyn rhyddhau staff i weithio ar brofion am COVID-19. Bydd y rhain ar agor rhwng 08.00 a 22.00 o'r gloch, saith niwrnod yr wythnos.

Bydd hyd at 170 o swyddi newydd Cyfwerth ag Amser Llawn yn cael eu creu drwy'r gwasanaeth o ganlyniad i'r newidiadau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio ymgyrch recriwtio i lenwi'r swyddi hyn. Mae Bwrdd prosiect wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gwaith recriwtio. Os bydd y prosesau recriwtio'n llwyddiannus, disgwylir y bydd 90% o'r penodiadau a phob un ac eithrio un o'r labordai gwib wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2020. Bydd y recriwtio'n digwydd yn rhanbarthol er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl wrth benodi. Bydd hyn yn golygu bod modd cyflenwi rhwng y labordai gwib a'r labordai rhanbarthol, a rhoi mwy o wydnwch ar gyfer profi yng Nghymru.

Ymhlith y manteision ychwanegol fydd profi am ystod o bathogenau anadlol (gan gynnwys ffliw). Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu'r labordy yn Imperial Park 5, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu profion serolegol am COVID-19.

Mae capasiti'r platfform a'r pecyn prawf wedi cynyddu'n raddol, ond rhoddwyd hwb i hyn wrth i blatfformau PerkinElmer ddod yn weithredol. Nid yw'r defnydd o'r platfform hwn heb ei heriau, oherwydd yr angen am gryn dipyn o ofod a chamau i reoli tymheredd.

### **3.2.4.3 Capasiti**

Ers dechrau'r pandemig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ceisio cynyddu'i gapasiti profi drwy brofion Adwaith Cadwynol Polymeras (PCR)<sup>2</sup>. Mae'r capasiti hwn wedi'i gynyddu ymhellach drwy benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Labordai Goleudy'r DU a sefydlwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae samplau o Ganolfannau Samplu'r Boblogaeth, Unedau Profi Symudol a mwyafrif y cartrefi gofal yn cael eu prosesu drwy Labordai Goleudy. Hyd yma, mae hyn wedi golygu bod modd i gapasiti Iechyd Cyhoeddus Cymru ganolbwyntio ar gefnogi profi mewn ysbytai, Unedau Profi Coronafeirws (i brofi gweithwyr allweddol), a chefnogi gwaith i brofi am frigiadau o achosion.

Yn fwy diweddar, bu nifer o broblemau wrth brosesu profion mewn Labordai Goleudy. Mae hyn wedi arwain at oedi wrth brosesu canlyniadau. Bu nifer o resymau am hyn, gan gynnwys galw uwch am brofion, llai o gapasiti mewn Labordai Goleudy, a phrofion cartrefi gofal yn ôl-gronni. Mae disgwyl i hyn barhau am nifer o wythnosau eto. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth y DU i ddatrys hyn. Ar yr un pryd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ateb cynaliadwy i Gymru a fydd yn cyfuno capasiti profi Cymru a chapasiti Labordai Goleudy'r DU yn y ffordd orau bosibl.

Gyda'r heriau profi sy'n wynebu'r Labordai Goleudy ar hyn o bryd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi prosesau samplu a phrofi'r boblogaeth drwy ddefnyddio capasiti profi Cymru yn y ffordd orau bosibl. Bydd hyn yn golygu bod cyfran o'r profion a fyddai fel arfer wedi'u prosesu mewn Labordai Goleudy bellach yn cael eu prosesu yn labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru. Pan gaiff y sefyllfa yn y Labordai Goleudy ei datrys, bydd capasiti labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio drachefn ar gyfer eu diben mwy penodol, sef ymateb i ymchwydd sydyn mewn achosion lluosog a brigiadau o achosion pan fydd angen prosesu samplau torfol yn gyflym.


Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynghori Llywodraeth Cymru a'r system ehangach ynghylch sut i reoli'r galw ac am lif samplau drwy'r gwahanol gapasiti profi er mwyn helpu i sicrhau bod y profion yn cael eu cynnal ar sail blaenoriaethau clinigol a blaenoriaethau'r system. Er enghraifft, clefion mewn ysbytai, gweithwyr allweddol, dinasyddion symptomatig, sgrinio rheolaidd mewn cartrefi gofal.

---

<sup>2</sup> Prawf diagnostig yw prawf PCR sy'n gwirio a yw rhywun wedi'i heintio â'r coronafeirws.

### 3.2.4.4 Gweithgarwch Cyffredinol

Mae'r ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y profion PCR sydd wedi'u dadansoddi yn labordai GIG Cymru a labordai y tu allan i GIG Cymru yn y drefn honno.



Ffigur 1: Nifer y profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru a labordai y tu allan i GIG Cymru

### 3.2.4.5 Labordai GIG Cymru

Yn achos gweithgarwch sy'n mynd rhagddo yn labordai GIG Cymru, mae'r wybodaeth wedi'i rhoi yn ôl 'llwybrau samplu' eang, sydd i'w gweld fel rhan o'r setiau data sylfaenol. Dyma'r llwybrau samplu:

- Cymunedol
- Ysbytai
- Arall

Mae'r categori 'Cymunedol' yn cynnwys sbesimenau a gaiff eu casglu mewn Unedau Profi Cymunedol a Chanolfannau Samplu'r Boblogaeth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro profion a gaiff eu casglu mewn lleoliadau cymunedol drwy is-gategoriâu pellach, sef "Sgrinio gweithwyr allweddol a phreswylwyr asymptomatig" neu "Brofion Symptomatig Cymunedol", a hynny i adlewyrchu'r polisi o gynnal profion sgrinio rheolaidd mewn Cartrefi Gofal. Mae'r llwybr 'Ysbytai' yn cyfeirio at brofion a gynhelir ar gleifion mewnol.

Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys profion a gaiff eu casglu mewn lleoliadau fel Carchardai a Meddygfeydd neu lle nad yw'r lleoliad casglu'n hysbys (ar goll, annilys, ac ati).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru rhwng 7 Medi a 13 Medi 2020, a hynny yn ôl y llwybr samplu.



Llwybr samplu	Cyfanswm wythnosol
Labordai GIG Cymru – Profion cymunedol	13688
Labordai GIG Cymru – Profion ysbytai	5406
Labordai GIG Cymru – Profion eraill neu anhysbys	336
<b>Cyfanswm</b>	<b>19430</b>

Bu cynnydd diweddar yng ngweithgarwch labordai GIG Cymru. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yn y galw am samplu ynghyd â symud rhywfaint o weithgarwch o Labordai Goleudy i labordai GIG Cymru.

### 3.2.4.6 Labordai y tu allan i GIG Cymru

Adroddir am brofion sy'n cael eu dadansoddi gan labordai y tu allan i GIG Cymru (cyfeirir at y rhain yn aml fel Labordai Goleudy, er bod hyn yn cynnwys labordai nad ydynt yn rhan ffurfiol o bartneriaeth y Labordai Goleudy) gan ddefnyddio'r 3 llwybr samplu yma:

- Labordai y tu allan i GIG Cymru - Cymunedol
- Labordai y tu allan i GIG Cymru – Danfon i'r cartref
- Labordai y tu allan i GIG Cymru – Porth Sefydliad; (Prawf Cartref Gofal gynt).

*(Mae Cymunedol yn cyfeirio at samplau a gaiff eu casglu mewn safleoedd cymunedol fel Safleoedd Profi Rhanbarthol (e.e. Abercynon)).*


Roedd y Porth Sefydliad i'w ddefnyddio'n wreiddiol gan Gartrefi Gofal yn unig, er mwyn archebu pecynnau profi mewn swmp. Ddiwedd mis Awst 2020, mae'r defnydd wedi'i ehangu i unrhyw sefydliad cofrestredig sy'n gwneud cais am becynnau profi mewn swmp. Fodd bynnag, Gartrefi Gofal ar y cyfan sy'n dal i ddefnyddio'r dull hwn o wneud cais.

Yn yr wythnos a ddechreuodd ar 7 Medi 2020, cafodd 45,896 o brofion eu dadansoddi gan labordai y tu allan i GIG Cymru.

### 3.2.4.7 Amseroedd Prosesu

Er mwyn i waith cadw goruchwyliaeth fod ar ei fwyaf effeithiol mewn pandemig, mae'n hanfodol bod samplau'n cael eu prosesu'n gyflym a'r canlyniadau'n cael eu rhoi i'r cyhoedd a swyddogion olrhain cysylltiadau mor gyflym â phosibl. Gan hynny, bu cryn bwyslais ar amseroedd prosesu yn ystod y pandemig.

Ar hyn o bryd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro amseroedd prosesu samplau a brofir yng Nghymru ynghyd â samplau a brofir yn labordai goleudy'r DU.



Ffigur 2: Amseroedd prosesu ar gyfer cyfyngau amser critigol

Yn achos samplau a brofir yng Nghymru, mae'r data a gaiff eu casglu yn golygu bod modd asesu'r canlynol:

- y broses o gasglu'r sampl yn y ganolfan sampl, i ganlyniad y sbesimen ac awdurdodi yn y labordy. Mae hyn yn cwmpasu'r holl broses o'i dechrau i'w diwedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gael gweld data a monitro'r holl broses i'w diwedd
- y broses cyn cyrraedd y labordy – o gasglu'r sampl yn y ganolfan sampl i'r adeg pan fydd y sbesimen yn cyrraedd y labordy. Mae hyn yn helpu i ddeall unrhyw broblemau y tu allan i'r labordai, fel cludo samplau neu eu rhoi mewn sypiau;
- y broses yn y labordy ei hun – o dderbyn y sampl i awdurdodi canlyniad y prawf yn y labordy.

Caiff yr amseroedd prosesu fel arfer eu cofnodi fel cyfran y profion a gaiff eu hawdurdodi o fewn 1, 2 neu 3 diwrnod i'r stamp amser (sef pan gaiff y sbesimen ei gasglu, yn aml).

### 3.2.4.8 Labordai GIG Cymru: Amseroedd Prosesu: Casglu i Awdurdodi am y Tro Cyntaf


Mae amseroedd prosesu canlyniadau profion GIG Cymru i'w gweld isod ac wedi'u seilio ar bob prawf a awdurdodwyd ers dechrau mis Chwefror 2020. Mae hyn yn cwmpasu'r broses 'o'r dechrau i'r diwedd' ar gyfer samplu a phrofi. Bydd yn cynnwys unrhyw broblemau yn y labordy ei hun yn ogystal â phroblemau allanol fel rhoi samplau mewn sypiau ac unrhyw oedi wrth gludo samplau i'r labordai.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i wella'r broses, ac yn sgil hynny yr amseroedd prosesu.

Amseroedd prosesu Canlyniadau Profion GIG Cymru (pob prawf a awdurdodwyd ers dechrau mis Chwefror 2020)

Llwybr samplu	Nifer y profion	1 diwrnod	2 ddiwrnod	3 diwrnod
<b>Labordai GIG Cymru – Profion cymunedol</b>	258,898	41.9%	72.9%	<b>89.4%</b>
<b>Labordai GIG Cymru – Profion ysbytai</b>	92,012	80.8%	96.8%	<b>99.1%</b>
<b>Labordai GIG Cymru – Profion eraill neu anhysbys</b>	16,684	57.3%	84.4%	<b>94.2%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>367,594</b>	<b>52.4%</b>	<b>79.4%</b>	<b>92.0%</b>

Mae **Error! Reference source not found.** isod yn dangos canran y profion a awdurdodwyd o fewn 1, 2 a 3 diwrnod i gasglu'r sbesimen dros gyfnod o amser yn labordai GIG Cymru ar gyfer yr holl lwybrau samplu.




Ffigur 3: Canran y profion a awdurdodwyd o fewn 1, 2 a 3 diwrnod i gasglu'r sbesimen fesul wythnos yn labordai GIG Cymru

Ar hyn o bryd, cyfran y profion sy'n cael eu hawdurdodi o fewn 1 diwrnod i gasglu'r sbesimen yw tua 70% (yn debyg i'r pythefnos blaenorol). Mae hyn yn nodedig ac ystyried y cynnydd sydyn, nad oedd wedi'i gynllunio, yn nifer y profion yn yr wythnos a ddechreuodd ar 7 Medi 2020.

Mae llawer o waith yn cael ei wneud i ddeall amseroedd prosesu wrth sgrinio gweithwyr allweddol a phreswylwyr asymptomatig a hefyd i ddeall amseroedd prosesu y byrddau iechyd sydd â chyfleusterau samplu. Er

enghraifft, mae Ffigur 4 yn dangos canran y profion a awdurdodwyd gan labordai GIG Cymru o fewn 1 diwrnod i gasglu'r sbesimen, gan ddangos nifer y samplau a gasglwyd mewn lleoliadau cymunedol gan fyrddau iechyd.



Ffigur 4: Canran y profion a awdurdodwyd gan labordai GIG Cymru o fewn 1 diwrnod i gasglu'r sbesimen, gan ddangos nifer y samplau a gasglwyd mewn lleoliadau cymunedol gan fyrddau iechyd.

Yn yr wythnos a ddechreuodd ar 7 Medi 2020, dangosir bod cyfran is o'r samplau a gasglwyd yng nghyfleusterau cymunedol Bae Abertawe wedi'u hawdurdodi o fewn 1 diwrnod calendr i gyrraedd y labordy. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i ymchwilio i'r rhesymau dros hyn.


### 3.2.4.9 Labordai GIG Cymru: Amseroedd Prosesu yn y Labordai eu Hunain

Fel y nodwyd uchod, cyfrifir yr amseroedd prosesu 'yn y labordai eu hunain' o'r adeg pan fydd y sbesimen yn cyrraedd Labordy GIG Cymru ac yn cael ei gofnodi ar y system electronig, i pan gaiff y canlyniad ei awdurdodi gyntaf. Caiff ei ddangos fel cyfran y profion a awdurdodwyd o fewn 1, 2 neu 3 diwrnod ar ôl i sbesimen gyrraedd labordy.

Mae **Error! Reference source not found.** a'r tabl isod yn dangos cyfran y profion sy'n cael eu hawdurdodi o fewn 1, 2 neu 3 diwrnod ar ôl cyrraedd labordy GIG Cymru yn ôl y llwybr samplo, ers mis Chwefror 2020.

Llwybr samplo	Nifer y profion	1 diwrnod	2 ddiwrnod	3 diwrnod
Labordai GIG Cymru – Profion cymunedol	258,898	85.5%	98.1%	<b>99.6%</b>
Labordai GIG Cymru – Profion ysbytai	92,012	90.5%	98.6%	<b>99.6%</b>

<b>Labordai GIG Cymru – Profion eraill neu anhysbys</b>	16,684	76.4%	91.5%	<b>97.5%</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>367,594</b>	<b>86.3%</b>	<b>98.0%</b>	<b>99.5%</b>



Figur 5: Canran y profion a awdurdodwyd o fewn 1, 2 a 3 diwrnod i gyrraedd labordai GIG Cymru fesul wythnos

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r amseroedd prosesu o fewn labordai GIG Cymru eu hunain wedi aros yn gyson, gyda bron i 90% o sbesimenau'n cael eu hawdurdodi o fewn 1 diwrnod calendr i gyrraedd labordy.


Wrth edrych ar y llwybrau samplo, mae'r amseroedd prosesu yn y labordai eu hunain yn debyg. Mae'n ddealladwy bod cyfran uwch o brofion ysbytai yn cael eu hawdurdodi o fewn 1 diwrnod calendr i gyrraedd y labordai.

### 3.2.4.10 Labordai y tu allan i GIG Cymru – Amseroedd Prosesu: Casglu i Awdurdodi am y Tro Cyntaf

Mae'r amseroedd prosesu o gasglu'r sbesimen i awdurdodi am y tro cyntaf yn cael eu cyfrifo mewn ffordd debyg ar gyfer profion a ddadansoddir gan labordai y tu allan i GIG Cymru, sef o'r adeg pan fydd unigolyn yn darparu sbesimen i'r adeg pan fydd y labordy'n awdurdodi'r canlyniad. Yn achos pecynnau a anfonir i gartrefi, yr amser dechrau yw pan fydd y manylion yn cael eu cofnodi ar y porth dychwelyd ar gyfer profion cartref. Mewn canolfannau profi, yr amser dechrau yw pan gaiff yr unigolyn ei sganio wrth dael.

Mae'r amseroedd prosesu hyd yma ar gyfer canlyniadau profion y tu allan i GIG Cymru wedi'u seilio ar bob prawf (ers dechrau profi) i'w gweld yn y tabl isod, a dros gyfnod o amser yn **Error! Reference source not found.**

Lleoliad	Nifer y profion	1 diwrnod	2 ddiwrnod	3 diwrnod
<b>Cyfanswm</b>	<b>313,469</b>	<b>46.6%</b>	<b>69.3%</b>	<b>85.8%</b>



Ffigur 6: Canran y profion a awdurdodwyd o fewn 1, 2 a 3 diwrnod i gasglu'r sbesimen fesul wythnos y tu allan i GIG Cymru

Fel rheol gyffredinol dros yr wythnosau diwethaf, mae labordai y tu allan i GIG Cymru wedi blaenoriaethu profion a gaiff eu casglu drwy ganolfannau profi yn hytrach na phroffion a gaiff eu harchebu i'w hanfon i gartrefi neu drwy'r porth sefydliadau. Efallai nad yw'n gwbl deg cyhoeddi'r gwerth cyffredinol hwn, gan fod y llwybr samplu'n amlwg wedi dylanwadu ar yr amseroedd prosesu, ond dyma'r gorau sy'n bosibl yn sgil y ffaith nad oes modd adnabod profion fesul llwybr mewn ffordd addas ar hyn o bryd.

Nid yw'r data a ddarparwyd gan labordai y tu allan i GIG Cymru yn cynnwys stamp amser cyfatebol ar gyfer yr adeg pan fydd y sbesimen yn cyrraedd y labordy. Gan hynny, nid yw'n bosibl cyfrifo amser prosesu yn y labordy yn achos profion a gaiff eu dadansoddi mewn labordai y tu allan i GIG Cymru.

### 3.2.4.11 Labordai y tu allan i GIG Cymru – Canlyniadau amhendant

Yn yr wythnosau diwethaf, bu pryderon cynyddol am gyfradd y canlyniadau amhendant neu annilys sy'n cael eu darparu gan labordai y tu allan i GIG Cymru.

Mae hyn golygu nad yw canlyniad y prawf yn 'bositif' nac yn 'negatif', ac oherwydd hynny, mae'n arwain yn aml at roi prawf arall i'r unigolyn. Yn yr

wythnos a ddechreuodd ar 7 Medi 2020, roedd 4% o'r canlyniadau a roddwyd yn amhendant.


Fodd bynnag, ceir amrywiaeth yn ôl y diwrnod a'r labordy profi. Mae rhai labordai yn cynnal mwy o brofion ar ddiwrnodau penodol yn ystod yr wythnos, tra bo labordai eraill yn cofnodi cyfran uchel o ganlyniadau amhendant. I gymharu, tua 0.5% o'r canlyniadau sy'n amhendant yn labordai GIG Cymru. Gan hynny, mae hyn yn arwain at bryderon am ansawdd y profi mewn labordai y tu allan i GIG Cymru a bydd hyn yn cael ei fonitro.

### 3.2.4.12 Profi am wrthgyrff

Cyfrifoldeb byrddau iechyd yw mwyafrif y gwaith profi am wrthgyrff<sup>3</sup> a'r capasiti i wneud hynny, ac mae'n dibynnu ar broses ddyrannu pecynnau yn y DU gan Abbot, Roche ac Euroimmun. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwrthgyrff a hwnnw'n gweithredu o dan y Grŵp Samplu a Phrofi Cenedlaethol, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru.

### 3.2.4.13 Gweithgarwch

Mae'r ffigur canlynol yn dangos nifer y profion am wrthgyrff a ddadansoddwyd yn labordai GIG Cymru erbyn dyddiad eu hawdurdodi am y tro cyntaf.



Ffigur 7: Nifer y profion serolegol a ddadansoddwyd gan labordai GIG Cymru fesul wythnos

Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am brofion gwrthgyrff llif unffordd, gan nad yw'r canlyniadau ar gael ar hyn o bryd ar system wybodaeth WLIMS. Mae hyn yn cyfateb i tua 13,000 o ganlyniadau profion, gyda'r rhan fwyaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae

<sup>3</sup> Prawf gwaed yw prawf gwrthgyrff sy'n gwirio a yw rhywun wedi cael coronafeirws (COVID-19)

cynlluniau i ychwanegu canlyniadau llif unffordd er mwyn rhoi darlun manwl o ganlyniadau serolegol.

### **3.2.5 Canlyniadau**

Ar ddechrau'r pandemig, roedd darparu canlyniadau i weithwyr a chyflogwyr allweddol yn broses a wnaed â llaw gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd. Wrth i nifer y profion gynyddu, datblygwyd dull gwahanol o fwrw ati. Ddiwedd mis Ebrill 2020, datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatrysiad neges destun ar ffôn symudol i weithwyr allweddol. Cafodd hwn ei dreialu yn Rodney Parade a Stadiwm Dinas Caerdydd, lle byddai'r canlyniad yn cael ei anfon drwy neges destun at y gweithiwr allweddol a gafodd ei brofi. Mae'r holl fyrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau'n defnyddio'r gwasanaeth testun ar gyfer canlyniadau, a hynny'n rhan o gontract Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### **3.2.6 Achos Busnes dros Labordy newydd**

Ym mis Mai 2020, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru achos busnes i Lywodraeth Cymru i greu gofod labordy ychwanegol er mwyn cynnal profion antigenau a gwrthgyrff. Cymeradwywyd hyn ddechrau mis Mehefin 2020 ac aeth gwaith rhagddo gyda'r Cydwasanaethau, gyda golwg ar gael y safle yn Imperial Park 5 (IP5) yn barod erbyn dechrau mis Awst 2020.

Yn dilyn hyn, ddiwedd mis Mehefin 2020, gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Lywodraeth Cymru a fyddai modd lleoli un o Labordai Goleudy'r DU yn y de. Dynodwyd IP5 fel safle posibl, ac ar ôl ymweliadau gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai'r Labordy Goleudy yn mynd i'r safle a oedd yn cael ei gynllunio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Lab 1). Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid ar gyfer Lab 1 yn dal i fod ar gael er mwyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru greu ei labordy ei hun i Gymru (Lab 2). Dynodwyd ail labordy yn IP5 fel labordy lle gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru fwrw ymlaen â phrofion gwrthgyrff. Disgwylir y bydd y labordy hwn yn weithredol o ddechrau 2021.

### **3.2.7 Cefnogi Grŵp Cynghorol Tactegol Llywodraeth Cymru**

Mae naw o aelodau uwch o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o Grŵp Cynghorol Tactegol Llywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn cynnwys ein harbenigwyr mewn microbioleg, cadw gwyliadwriaeth a diogelu iechyd. Mae'r grŵp yn rhoi cefnogaeth broffesiynol a thechnegol i Lywodraeth Cymru.

### **3.2.8 Dangosfwrdd Cadw Gwyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu dulliau i gadw gwyliadwriaeth ar sawl elfen o haint COVID-19, ynghyd â chadw gwyliadwriaeth ar heintiau anadlol aciwt. Mae dangosfwrdd cyhoeddus yn rhoi manylion am achosion newydd, profion, adroddiadau cyflym am farwolaethau, dangosyddion



adroddiadau am symptomau mewn gofal sylfaenol, a gwybodaeth am achosion o COVID-19 sy'n dechrau mewn ysbytai. At hynny, rydym yn creu adroddiad epidemiolegol wythnosol am COVID-19, diweddariadau bob pythefnos am y cyfraddau fesul awdurdod lleol, a dadansoddiadau unigol o achosion lluosog a brigiadau o achosion. Rydym hefyd yn gweithio i helpu i gyflwyno adroddiadau ffocws ar gyfer ardaloedd sy'n achosi pryder, er mwyn disgrifio achosion yn fwy cyflawn.

Mae gan system Cadw Gwyliadwriaeth COVID-19 yr elfennau canlynol:

- Prosesau cadw gwyliadwriaeth sensitif i ddisgrifio patrwm yr haint ac i nodi clystyrau, brigiadau o achosion, a lledaeniad daearyddol
- Monitro'r gyfradd drosglwyddo fesul ardal mewn amser real gan ddefnyddio modelu (ar gyfer effaith y camau rheoli)
- Cadw gwyliadwriaeth a dadansoddi grwpiau risg ar gyfer marwolaethau a chanlyniadau gwael
- Cadw gwyliadwriaeth serolegol ac adnabod unigolion sydd ag imiwnedd i'r clefyd
- Monitro'r effaith ar y system iechyd a gofal cymdeithasol (drwy ysbytai, brigiadau o achosion yn y gymuned ac elfennau iechyd galwedigaethol).

Rydym yn gweithio gyda thimau Profi Orlhain Diogelu i adrodd a chofnodi achosion, ac mae data am alwedigaeth a 'mannau gwaith' wedi'u hychwanegu'n ddiweddar at y system er mwyn gallu canfod clystyrau mewn gweithleoedd penodol (gan gynnwys ysgolion). Mae rhagor o ddatblygiadau'n cael eu hystyried.

### **3.2.9 Cyfathrebu**

Mae 'hysbysu am risg' yn ymyriad iechyd cyhoeddus ynddo'i hun, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu helaeth o ddechrau'r pandemig. Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain y gwaith o ddatblygu ymgyrch gyfathrebu Profi Orlhain Diogelu, tra bo Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r broses o ddatblygu a lledaenu'r ymgyrch. Yn benodol, rydym wedi rhoi cyngor am ddeall ymddygiad a gwerthuso, ac wedi mynd ati'n rhagweithiol i ledaenu gwybodaeth bwysig er mwyn cefnogi Profi Orlhain Diogelu Llywodraeth Cymru drwy rwydweithiau rhanddeiliaid, y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau traddodiadol.

Ar yr un pryd, mae Tîm Cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi chwarae rhan hollbwysig wrth arwain a chydlynu'r gwaith cyfathrebu i gefnogi'r brigiadau a'r clystyrau o achosion sydd wedi dod i'r amlwg ers diwedd y cyfyngiadau symud. Rydym wedi gwneud y gwaith hwn yn unol â Chynllun Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan ac wedi cynnal gweithdai ym mhedair Cell Cyfryngau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth er mwyn sicrhau bod gan bob un o'r ardaloedd Profi Orlhain Diogelu ddealltwriaeth glir o'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau wrth reoli brigiadau o achosion.

Byddwn yn parhau i gefnogi Profi Orlhain Diogelu drwy'r dulliau canlynol:

- Gwyddoniaeth ymddygiadol gymhwysol a gwerthuso er mwyn helpu i lunio'r negeseuon
- Arwain y gwaith cyfathrebu a rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu ym maes cyfathrebu pan fydd brigiadau a chlystyrau o achosion
- Sicrhau'r cyrhaeddiad uchaf posibl drwy ddefnyddio ystod o sianeli, gan gynnwys sianeli digidol a thrwy ein rhwydwaith ymgysylltu i randdeiliaid er mwyn cyrraedd ystod eang o grwpiau a chymunedau

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom ddechrau cyhoeddi datganiad dyddiol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfryngau a'r cyhoedd am ein hymateb. Caniataodd hyn inni ddiwallu'r galw am wybodaeth mewn ffordd ragweithiol. Daeth y datganiad dyddiol yn ddull i Iechyd Cyhoeddus Cymru hysbysu'r cyhoedd a'r cyfryngau am achosion newydd o'r coronafeirws yng Nghymru, a hefyd am nifer y marwolaethau, cyn i'r wybodaeth hon fod ar gael fel mater o drefn ar y dangosfwrdd data.

Sefydlwyd gwefan bwrpasol ar COVID-19, a honno wedi'i chynllunio i gyfleu negeseuon cyhoeddus cyfoes, yn ogystal â chanllawiau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mis Ebrill 2020, lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgyrch llesiant i helpu i liniaru effeithiau negyddol Covid-19 ar bobl yng Nghymru. Datblygwyd ein hymgyrch 'Sut Wyt Ti?' gydag arbenigedd ein huned gwyddor ymddygiad ac fe'i cynlluniwyd i roi cymorth a chynghor ar sail tystiolaeth i fynd i'r afael â llesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Mae'r ymgyrch hon yn parhau, gyda ffocws ar gefnogi'r cyhoedd a phartneriaid yn y trydydd sector, gan ddefnyddio adborth dwy ffordd yn sail i'r negeseuon. Rhoddir pwyslais penodol ar gefnogi grwpiau a chymunedau sy'n agored i niwed, ac sydd ag anghenion penodol.

### **3.2.10 Cyhoeddiadau Rheolaidd**

Nod Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yw casglu, monitro, asesu a syntheseiddio'n rhagweithiol yr hyn a ddysgir, data, profiad y cyhoedd a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â COVID-19. Mae'n rhoi gwybodaeth amser real y gellir gweithredu arni er mwyn llunio polisi a gwneud penderfyniadau.

Yn hyn o beth, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cefnogaeth mewn pedwar prif faes:

- Asesiadau o Effaith COVID-19 ar Iechyd
- Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ym maes llesiant ac ymddygiad
- Sganio'r Gorwelion Rhyngwladol a Gwersi Rhyngwladol
- Dangosfwrdd o ddangosyddion iechyd ehangach.

Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu (ac yn parhau i ddatblygu) cyfres o Asesiadau cyflym o Effaith ar Iechyd, a fydd yn creu darlun o ystod o effeithiau COVID-19 (yn gadarnhaol a negyddol)

a'r ymatebion polisi o ran iechyd a llesiant yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Ymhlith y pynciau mae: Polisi Aros Gartref a Chadw Pellter Cymdeithasol yng Nghymru sy'n ymateb i bandemig COVID-19 (Mehefin 2020); COVID-19 a'r byd ar ôl y pandemig: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Gweithio Hyblyg yng Nghymru (2020); Diogelwch Tai a Digartrefedd yng Nghymru yn ystod COVID-19: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (2020) a Newid Hinsawdd yng Nghymru – Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (2021).

Pwrpas yr adroddiadau yw cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau partner i flaenoriaethu camau gweithredu a all hyrwyddo a diogelu iechyd drwy liniaru effeithiau negyddol ac amlygu cyfleoedd yn ystod y cyfnod ymateb aciwt a'r cyfnod adfer.

Dros y misoedd diwethaf, mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi bod yn cynnal cyfweiliadau â miloedd o bobl 18 oed a hŷn ledled Cymru, i ddeall sut mae COVID-19 a chamau ymateb cysylltiedig yn effeithio ar lesiant pobl yng Nghymru. Bwriedir i ganlyniadau'r arolygon hyn lywio a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Mae nifer o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar farn pobl am y cyfyngiadau symud a'r cyfnod adfer wedi'u cwblhau. Yn ogystal, mae adroddiadau arbennig wedi'u cyhoeddi ar Amddifadedd, Oedran a Rhywedd, ac Ethnigrwydd. Bwriedir gwneud rhagor o waith dilynol gyda chyfran o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg cychwynnol.

Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi sefydlu dull cydgysylltiedig o rannu gwybodaeth â Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio creu cysylltiadau â rhwydweithiau ac asiantaethau yn fyd-eang, yn Ewrop ac yn y DU. Mae hyn yn cynnwys Sefydliad Iechyd y Byd a Chymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gweithio'n agos ac yn cefnogi Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru drwy edrych ar effeithiau COVID-19 ar degwch ym maes iechyd, a'i effeithiau cymdeithasol ac economaidd, gan ganolbwyntio ar adferiad.

Ymysg y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r gwaith economaidd-gymdeithasol rhyngwladol mae'r canlynol:

- mae pandemig COVID-19 yn cael effaith economaidd aruthrol, gan gynnwys ar gyflogaeth ac arferion gwaith
- mae'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad yn debygol o waethygu anghydraddoldebau ac amddifadedd, problemau iechyd meddwl, a diffyg cydlyniant cymdeithasol, a gall ansefydlogi cymunedau am genedlaethau i ddod
- dylai'r ffocws fod ar gydbwyso a lliniaru'r effeithiau ehangach ar iechyd y cyhoedd, ar y gwasanaeth iechyd, ac ar gymdeithas a'r economi, gan gynnwys tegwch a phobl sy'n agored i niwed

- dim ond pan fydd COVID-19 o dan reolaeth y mae adferiad economaidd cynaliadwy yn bosibl, a hynny drwy roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn iechyd a diogelwch cymdeithasol ac osgoi effeithiau niweidiol cyni. Mae cyfle i 'ailgodi'n gryfach' - datblygu economi wahanol sy'n fwy cyfartal a chynhwysol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych ar ffynonellau data arferol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd y gallai COVID-19 neu'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'i reoli effeithio arnynt. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn nangosfwrdd COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda dulliau mesur uniongyrchol eraill sy'n ymwneud â heintio a phrofi. Bydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r gwaith gan yr Uned Atal Trais hefyd yn rhan o ddangosfwrdd ehangach o ddangosyddion iechyd cyhoeddus.

Yn y dyfodol, yn ei gynllun ar gyfer gweddill y flwyddyn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau COVID-19 ar y boblogaeth, gan gynnwys cyflogaeth, grwpiau sy'n agored i niwed a llesiant meddyliol.

### **3.3 Torri Rheolau Data**

Ar brynhawn Sul, 30 Awst 2020, heb fwriadu gwneud hynny, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad ar wefan gyhoeddus a'r adroddiad hwnnw'n cynnwys data personol am 18,105 o bobl a oedd wedi cael profion positif am COVID-19 ers mis Chwefror 2020. Er bod hon yn wefan gyhoeddus, partneriaid rydym yn ymddiried ynddynt sy'n ei defnyddio fel arfer, yn hytrach na'r cyhoedd. Ar ôl deall bod y ddogfen wedi'i chyhoeddi, cafodd ei thynnu oddi ar y wefan am 09.55 o'r gloch y bore canlynol (31 Awst 2020). Yn y cyfnod pan oedd ar gael, cafodd ei gweld 56 o weithiau.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion (16,179 o bobl), roedd y wybodaeth yn rhoi llythrennau blaen pobl, eu dyddiad geni, eu hardal ddaearyddol a'u rhyw, a hynny'n golygu bod y risg y gallai pobl eu hadnabod yn isel. Fodd bynnag, yn achos 1,926 o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi nyrsio neu leoliadau caeedig eraill fel tai â chymorth, neu breswylwyr a oedd yn rhannu'r un cod post â'r lleoliadau hyn, roedd y wybodaeth hefyd yn cynnwys enw'r lleoliad. Roedd y risg y gellid adnabod yr unigolion hyn felly'n uwch, ond fe'i hystyrir yn isel o hyd.

Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd bod y data wedi'u camddefnyddio. Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru ar 2 Medi 2020, ac mae ymchwiliad allanol wedi'i gomisiynu ac wedi dechrau i amgylchiadau llawn yr achos o dorri'r rheolau data, ac i unrhyw wersi sydd i'w dysgu.

Yn y cyfamser, mae camau wedi'u cymryd ar unwaith i osgoi digwyddiad tebyg eto. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Tîm Rheoli Digwyddiadau i gymryd camau unioni a'r rheini eisoes wedi arwain at newid ein gweithdrefnau gweithredu safonol fel mai uwch aelod o'r tîm sydd bellach yn gyfrifol am uwchlwytho unrhyw ddata. Rydym hefyd wedi rhoi gwybod

i'n bwrdd iechyd a phartneriaid mewn awdurdodau lleol, gan eu diweddarau am y sefyllfa.

Mae cyfres o Gwestiynau Cyffredin wedi'u datblygu (ar gael yn <https://icc.gig.cymru/>) ynghyd â chyfeiriad e-bost a rhif ffôn penodol i bobl eu defnyddio i gysylltu â ni os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Cyhoeddwyd datganiad ffurfiol i'r wasg ar 14 Medi 2020 a rhoddodd y Prif Weithredwr nifer o gyfweiliadau i'r wasg am y pwnc.

Hoffem achub ar y cyfle drachefn, drwy'r cyflwyniad hwn, i ymddiheuro'n arw am dorri'r rheolau hyn ynghylch manylion personol pobl. Rydym eisoes wedi cymryd camau ar unwaith i atal hyn rhag digwydd eto a bydd yr ymchwiliad yn rhoi rhagor o fanylion am sut y digwyddodd, a oes angen rhagor o gamau gweithredu, a pha wersi y mae'n rhaid eu dysgu.

## **4. Yr hyn a ddysgwyd hyd yma drwy Profi Olrhain Diogelu**

Isod y mae nifer o enghreifftiau o wersi a ddysgwyd sy'n ymwneud â'n hymateb i'r pandemig. Nid yw'r rhain i fod yn gynhwysfawr ac maent yn adlewyrchu ein barn ni, ac nid dyna fydd barn pobl eraill o anghenraid. .

### **4.1 Samplu**

Wrth ymateb i'r pandemig, roedd Llywodraeth y DU wedi datblygu system ddigidol ar gyfer trefnu profion, sefydlu canolfannau profi drwy ffenestr y car a dosbarthu pecynnau profion i gartrefi unigolion. Byddai ateb y DU wedi arwain at heriau sylweddol ar y pryd pe bai wedi'i ddefnyddio yng Nghymru. Roedd y dulliau samplu'n wahanol, a byddai'r canlyniadau wedi'u storio yng Nghymru heb gyfle i adrodd yn ôl yng Nghymru. Dangosodd hyn bod angen ateb digidol i gefnogi profi torfol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at ddatblygu ceisiadau electronig am brofion. Mae defnyddio ceisiadau electronig am brofion wedi gweddnewid y modd y caiff data'u casglu ac roedd yn ffactor o bwys wrth allu cynyddu'r capasiti profi yn labordai Cymru.

### **4.2 Cell Olrhain Cysylltiadau**

Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Gell Olrhain Cysylltiadau ar waith ar 27 Chwefror 2020, yn ystod y cyfnod cyfyngu, mewn ymateb i un achos a gadarnhawyd yn gysylltiedig â theithio a gafodd ddiagnosis yng Nghymru. Cafodd y Gell ei hehangu'n gyflym wrth i'r diffiniad o achos newid yn ystod y cyfnod cyfyngu. Erbyn 12 Mawrth 2020, roedd y DU wedi symud i'r cyfnod oedi. Ymhlith y gwersi a ganfuwyd o'r cynnydd cyflym hwn mewn capasiti roedd: yr angen i fod yn glir am y sgiliau a'r wybodaeth hanfodol y mae eu hangen i gefnogi'r gwaith hwn; manteision rhoi hyfforddiant wedi'i deilwra i staff i ateb yr angen hwn; a'r gwerth y mae'r cyhoedd yn ei roi ar y gallu i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r staff yn ystod y broses olrhain cysylltiadau. Rhoddwyd y gwersi hyn ar

waith wrth i staff gael eu symud i'r Ganolfan Gyswilt Genedlaethol a'r Gell Ymateb Diogelu Iechyd wedi hynny.

### **4.3 Cell Lleoliadau Caeedig**

Ar 25 Mawrth, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei Gell Lleoliadau Caeedig ar ôl dod yn ymwybodol, drwy'r system clefydau hysbysadwy, o achosion lluosog (o heintiau COVID-19 wedi'u cadarnhau a heintiau anadlol oedd heb gael diagnosis) mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Daeth y gell hon yn gwbl weithredol ddiwedd mis Mawrth 2020, ac fe'i sefydlwyd i alluogi staff mewn lleoliadau caeedig i gael mynediad i gyngor perthnasol am Atal a Rheoli Heintiau ac i ganfod llwybrau pan fyddai angen uwchgyfeirio materion, er mwyn i dimau lleol allu cynnig cefnogaeth fwy dwys.

Oherwydd natur y pandemig, a ddatblygodd yn gyflym tu hwnt, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisiau a chanllawiau'n rheolaidd. I'r Gell weithio'n effeithiol, roedd iddi ystod o swyddogaethau a thasgau, a esblygodd dros amser, tra bo gweddill y system wedi sefydlu'r gallu i ymateb i gartrefi gofal yn lleol ac wrth i bolisi ar gyfer y sector newid. Golygodd y gwersi a ddysgwyd hefyd bod modd rhoi cyngor ac addasu canllawiau yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i'w defnyddio yng Nghymru pan fyddai hynny'n briodol. Bu ymwneud agos hefyd â Fforwm Gofal Cymru, y GIG, awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru – a hynny'n cynnwys proses ddysgu a chyfnewid ar gyfer y wybodaeth a gâi pob sefydliad.

Wrth i'r dystiolaeth a ddô i'r amlwg dynnu sylw at yr angen am roi pwyslais ar atal, datblygwyd ymyrraeth ragweithiol ac ataliol benodol gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol i sicrhau bod y cartrefi hynny nad oedd COVID-19 wedi effeithio arnynt eto yn cael cyngor o ansawdd da am gamau ataliol, ynghyd ag asesiad risg.

Wrth i'r ymateb i'r pandemig esblygu, mae'r Gell Lleoliadau Caeedig bellach wedi'i hymgorffori'n rhan o'r gell ymateb genedlaethol i Ddiogelu Iechyd.

### **4.4 Ymchwil**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn tair astudiaeth ymchwil agored. Mae'r rhain yn cynnwys Treial Cam II/III brechlyn ChAdOx1 nCoV-19, Consortiwm Genomeg COVID-19 y DU: treial cyflym ar raddfa fawr o gapasiti dilynianu coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 y Pedair Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus yn y DU, ac arolwg o gyflogaeth ansicr ac effaith Covid-19. At hynny, rydym hefyd yn bartner mewn dau gais am gyllid i'r Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd/Galwad Cyllid Treigl Ymateb Cyflym COVID-19 Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Dyma'r rhain:

- Consortiwm Genomeg COVID-19 y DU (COG-UK): Cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru/Prifysgol Cymru/Prifysgol Caeredin/Prifysgol Caergrawnt/Sefydliad Sanger

- Rheoli COVID-19 drwy well trefniadau cadw gwylidwriaeth ar y boblogaeth ac ymyrraeth (Con-COV): dull plattform: Cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe.

Mae nifer o geisiadau eraill yn aros am benderfyniad.

Bydd y gwersi a ddysgir o'r astudiaethau ymchwil hyn yn cael eu rhannu'n fewnol ac yn allanol unwaith y byddant ar gael.

#### **4.5 Ymarferion Amlasiantaeth**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi trefnu a hwyluso nifer o ymarferion amlasiantaeth.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Ymarfer *Dinas Seren* ar 3 Mawrth 2020 ar gyfer pob ymatebydd categori 1 yng Nghymru, a oedd yn ymchwilio i'r ymateb amlasiantaeth i gais i gyflwyno cyfyngiadau symud mewn lleoliad trefol wrth ymateb i COVID-19
- Dau ymarfer 'cerdded drwodd' i gefnogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i weithredu'r strategaeth Profi Olrhain Diogelu.
- Ymarfer Barod: edrych ar sut y gallai Timau Rheoli Brigiadau, Grwpiau Cydlynu Strategol a Grwpiau Cydlynu'r Adferiad ddefnyddio'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru wrth ymateb i COVID-19. Cynhaliwyd yr ymarfer ar 7 Awst 2020 a chymerodd 121 o gydweithwyr ran o asiantaethau drwy Gymru.

Mae'r rhain wedi rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol ganfod unrhyw faterion o bwys a gwersi y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod gwahanol gyfnodau'r pandemig.

#### **4.6 Gwersi cynnar a ddysgwyd o glystyrau / achosion lluosog a brigiadau lleol o achosion**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i ganfod gwersi cynnar o glystyrau/achosion lluosog a brigiadau lleol o achosion a ddigwyddodd cyn mis Gorffennaf 2020. Cafodd y gwersi hyn eu rhannu â holl sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

Roedd y canlynol ymhlith y gwersi a ddysgwyd:

- y gofyniad i atgyfnerthu'r defnydd o'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru
- cydnabod y dylid ystyried y Tîm Rheoli Brigiadau fel y dull strategol o weithio mewn partneriaeth i gytuno ar bob penderfyniad wrth ddatgan achosion lluosog/brigiadau o achosion, cymryd 'camau rheoli' a chyfathrebu
- gwerth rhoi canllawiau amlieithog clir a phrydlon i'r cyhoedd
- pwysigrwydd cadw gwylidwriaeth reolaidd ar gyfraddau haint cefndirol yn y gymuned

- yr angen i gasglu data cywir wrth wneud gwaith samplu a phrofi torfol.

#### **4.7 Gwersi Rhyngwladol**

Mae'r ffrwd waith Sganio'r Gorwel a Dysgu Rhyngwladol yn canolbwyntio ar dystiolaeth, profiadau, dulliau mesur, dulliau pontio a dulliau adfer ar gyfer COVID-19 yn rhyngwladol, a hynny er mwyn deall ac edrych ar atebion i fynd i'r afael â'r effeithiau parhaus ar iechyd, llesiant, cymdeithas a'r economi (niweidiau a buddion posibl).

Mae'r gwersi a'r wybodaeth yn cael eu crynhoi mewn adroddiadau wythnosol i helpu i wneud penderfyniadau. Gall y rhain amrywio o ran eu pwyslais a'u hyd a'u lled, gan ddibynnu ar sefyllfa COVID-19 wrth iddi esblygu a'r anghenion o ran iechyd y cyhoedd / polisi. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith Swyddfa Wyddoniaeth Cymru a thîm Rheoli Aur Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn bwydo i mewn i'r gwaith hwnnw. Mae'n rhan o ddull systematig ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru o gasglu gwybodaeth i lywio camau polisi cynhwysfawr, cydlynol a chynhwysol, a'r rheini wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae pwyslais yr adroddiadau wedi cynnwys meysydd fel gordewdra, BAME, cyflogaeth ac effaith amgylcheddol a chymdeithasol cyfarpar diogelu personol.

#### **4.8 Dull systematig o ddefnyddio a chael gafael ar wybodaeth a gwersi sefydliadol**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymeradwyo dull systematig o ddefnyddio a chael gafael ar wybodaeth sefydliadol sy'n ymwneud â COVID-19. Mae'r dull hwn yn dangos sut y bydd gwybodaeth hollbwysig am gyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at yr ymateb i'r pandemig yn cael ei chanfod, ei storio a'i defnyddio. At hynny, mae'r dull yn dangos sut y byddwn, drwy fframwaith y cytunwyd arno, yn cefnogi gwersi sefydliadol a ddysgir am COVID-19. Bydd yr holl elfennau hyn yn gwella'n gwybodaeth am y pandemig; yn rhoi gwersi sefydliadol i'w dysgu; ac yn cryfhau'r wybodaeth sydd gennym i helpu gydag ymchwiliadau yn y dyfodol.

#### **4.9 Dadansoddeg Gorfforaethol**

Mae ein hymateb i Covid-19 hyd yma wedi dangos gwerth gwybodaeth gadarn o ansawdd da am berfformiad, a honno'n cael ei chyflwyno mewn ffyrdd hygyrch. Drwy ein Tîm Dadansoddeg Gorfforaethol, rydym wedi datblygu Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd sy'n defnyddio adnoddau gwybodaeth fusnes o'r radd flaenaf a thechnegau delweddu data.

Bydd y Dangosfwrdd yn dadansoddi gwybodaeth hollbwysig bob mis er mwyn rhoi darlun cliriach i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ynghylch sut i weithredu. Mae'n gwneud hyn drwy ddwyn ynghyd wybodaeth gorfforaethol hollbwysig mewn nifer o feysydd i helpu i wneud penderfyniadau effeithiol a rhoi sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys: cyllid, pobl, risg, ansawdd, COVID-19 a darparu ein prif wasanaethau ym maes iechyd y cyhoedd.



Rydym wedi cyflawni'r gwaith hwn drwy ddull prosiect hyblyg, a hwnnw'n canolbwyntio ar ddeall anghenion rhanddeiliaid, sicrhau gwerth drwy gynhyrchion sylfaenol hyfyw, a gwella'n raddol ar sail adborth. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, rydym wedi gweithio i safonau data a dadansoddi cydnabyddedig.

## **5. Paratoi at Gyfnod y Gaeaf**

Mae paratoadau Iechyd Cyhoeddus Cymru at y gaeaf yn canolbwyntio ar waith ataliol (mae rhagor o wybodaeth isod) ac ar gefnogi'r ymgyrch ffliw drwy Gymru. Eleni hefyd mae potensial i gyflwyno rhaglen frechu ar gyfer COVID-19.

Y rhagdybiaethau cynharaf ar gyfer darparu rhaglen frechu ar gyfer COVID-19 yw y byddai'n dechrau cyn diwedd 2020. Mae'r cyfnod hwn yn cyd-fynd â darparu'r brechlyn ffliw mewn gofal sylfaenol. Gyda phrosesau rheoli haint ar waith ar gyfer COVID-19, amcangyfrifir y bydd y rhaglen hon yn cymryd hwy na'r arfer i'w darparu, gyda rhai amcangyfrifon yn dynodi y bydd yn cymryd tair gwaith yn hwy. Er hynny, bydd canllawiau diweddar i sicrhau bod cleifion yn gwisgo masgiau i'r sesiwn ac yn sicrhau hylendid dwylo yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o'r broses imiwneiddio ac yn cyflymu pethau. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd lleoliadau a staff gofal sylfaenol yn gallu cynnal rhaglen COVID-19 ar yr un pryd, ac mae'n annhebygol y bydd data ar gael bryd hynny i allu rhoi'r brechlynnau yr adeg honno. Gan hynny mae'r gwaith cynllunio'n rhagdybio y bydd angen gweithlu, lleoliadau a logisteg ar wahân.

Wrth flaenoriaethu grwpiau i'w brechu, dilynir cyngor Cyd-bwyllgor y DU ar Imiwneiddio a Brechu, sydd ar hyn o bryd yn argymhell mai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen ddylai gael eu brechu gyntaf, ac yna'r rheini sydd â risg uwch o gael salwch difrifol ac o farw o haint COVID-19, gan roi'r bobl hynny mewn haenau yn ôl oedran a ffactorau risg.

Mae seilwaith yn bodoli'n barod ar gyfer cynllunio rhaglenni brechu yn y GIG, gyda phrofiad helaeth o ddarparu rhaglenni brechu mawr mewn gofal sylfaenol ac ysgolion, ac i staff y GIG. Llywodraeth Cymru a Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain y broses o gyflwyno rhaglenni brechu newydd, a hynny ar y cyd â'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd. Cyfarfu Bwrdd Rhaglen Gyflawni Brechlyn COVID-19 Cymru yn ffurfiol ar 4 Mehefin 2020, gan sefydlu nifer o ffrydiau gwaith.

Mae pob bwrdd iechyd wedi gwneud gwaith cynllunio o amgylch bwrdd i ddarparu brechlyn COVID-19, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae byrddau iechyd yn cael dogfen gynllunio sy'n cael ei diweddarau'n gyson, a honno'n amlinellu'r paramedrau cyflawni posibl ar gyfer prosesau imiwneiddio, y trefniadau ar gyfer trin a storio'r brechlyn, a threfniadau logisteg eraill. Mae'r dogfennau adnoddau ac adroddiad am yr ymarferion sydd wedi'u cynnal hyd yma ar gael i'r holl fyrddau iechyd i'w helpu i gynllunio eu hymarferion eu hunain.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydweithio â'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, i roi gwahoddiad i'r diwydiant i ddatblygu atebion masnachol arloesol i rai o heriau imiwneiddio yn y cyd-destun hwn. Mae'r broses wedi'i chwblhau ac yn anffodus ni ddaethpwyd o hyd i atebion addas.

Mae Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal asesiad cyflym o'r llenyddiaeth am frechu torfol, gan ganolbwyntio ar chwe phrif faes gan gynnwys gwybodaeth am ddulliau cyflawni newydd fel clinigau brechu drwy ffenest y car. Mae'r adolygiadau hyn wedi'u rhannu â'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, ynghyd ag asiantaethau iechyd cyhoeddus eraill y DU i'w helpu i gynllunio. Mae'n bwysig nodi bod heriau sylweddol o hyd i'w goresgyn er mwyn brechu yn erbyn COVID-19, gan gynnwys recriwtio imiwneiddwyr a staff cynorthwyol, rheoli data a galw/adalw grwpiau risg clinigol.

Cyn gaeaf 2019, lluniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad<sup>4</sup> yn cydnabod effeithiau tywydd y gaeaf ar bobl, gan ddynodi'r camau y byddai angen eu cymryd i wella iechyd gwael yn ystod y gaeaf. Nod y ddogfen oedd cefnogi llunwyr polisi, gwasanaethau iechyd a gofal, a sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd â'r cyhoedd, i gynllunio at y gaeaf, gan wella iechyd y boblogaeth bresennol a phoblogaethau'r dyfodol. Ar ôl ei chyhoeddi, cafodd y ddogfen ei chylchredeg yn eang ymhlith sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, ac mae wedi cael ei chylchredeg drachefn ers hynny.

## **6. Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth Hyrwyddo Brechu rhag y Ffliw**

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar iechyd pobl Cymru ac ar y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu, a disgwylir i hyn bara ymhell i mewn i 2021. Mae'r grwpiau y gallai COVID-19 effeithio fwyaf arnynt yn debyg i'r rheini y gallai'r fflw effeithio fwyaf arnynt, ac argymhellir bod y bobl hyn yn cael eu brechu rhag y fflw bob hydref.

Yng ngaeaf 2020/21, mae'n debygol y bydd y fflw a COVID-19 yn cylchredeg ar yr un pryd, ac felly mae sicrhau bod nifer uchel yn cael eu brechu rhag y fflw er mwyn gwarchod y rheini sydd â risg uwch a lleihau'r effaith ar wasanaethau iechyd yn flaenoriaeth strategol. Gyda'r posibilrwydd y gallai brechlyn rhag COVID-19 fod ar gael ar yr un pryd â'r brechlyn rhag fflw y gaeaf hwn, mae gwaith ar y rhaglen fflw ac i gynllunio at frechlyn COVID-19 yn cael ei wneud ar y cyd er mwyn gallu cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

Mae'r Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy yn arwain ar y gwaith cenedlaethol o gynllunio, darparu a gwerthuso elfen genedlaethol rhaglen fflw flynyddol y GIG yng Nghymru.

<sup>4</sup> <https://icc.gig.cymru/newyddion1/iechyd-dros-y-gaeaf-sut-y-gallwn-ni-i-gyd-wneud-gwahaniaeth/report-cym/>

Mae cydweithio a chefnogi yn themâu o bwys, a cheir trafodaethau agored rhwng byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o bwys. Cefnogaeth ragweithiol ac ymatebol, canllawiau a chyfathrebu yw sylfaen yr ymgyrch yng Nghymru. Elfen allweddol yn y cylch cynllunio yw myfyrio am yr adborth a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd, a'r gallu i addasu, er mwyn helpu i gryfhau'r rhaglen flynyddol hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y bobl sy'n gymwys i gael eu brechu rhag ffliw, gan ehangu'r rhaglen i aelodau aelwydydd pobl sydd ar y rhestr warchod, a chyn belled â bod brechlyn ychwanegol ar gael ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, i bobl rhwng 50 a 64 oed. Caiff hynny ei gadarnhau ar y pryd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £198,500 gan Lywodraeth Cymru i greu achos busnes i gefnogi'r rhaglen ffliw estynedig hon.

Cytunwyd ar y camau angenrheidiol i sicrhau y gellir rhoi brechlynnau rhag y ffliw yn ddiogel ac yn unol â chymau i gadw pellter cymdeithasol a'r canllawiau Atal a Rheoli Heintiau, ac mae'r camau hynny wedi'u cyhoeddi. Mae gwaith cynllunio canolog yn cael ei wneud i sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol, ar sail 'unwaith i Gymru'.

Mae aelodau tîm y Rhaglen Frechu rhag Clefydau Ataliadwy a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn bresennol ac yn cyfrannu at Fwrdd Rhaglen Ffliw y DU dan arweiniad Public Health England, er mwyn sicrhau bod y rhaglen ffliw flynyddol yng Nghymru yn cyd-fynd yn dda â rhaglenni ffliw'r DU. Mae'r Rhaglen Frechu rhag Clefydau Ataliadwy wedi'i chynrychioli yn aelodau Grŵp Imiwneiddio Cymru, sy'n cael ei gynnull gan Lywodraeth Cymru. Platfform yw hwn i godi a thrafod materion sy'n ymwneud ag imiwneiddio yng Nghymru, a chyfle gwerthfawr i sicrhau bod y rhaglen ffliw flynyddol yn cyd-fynd â rhaglenni imiwneiddio eraill.

Mae'r Grŵp Gweithredu Ffliw Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnull gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gyfle i sefydliadau rannu cyngor a gwybodaeth arbenigol, ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru hwyluso a chydlynu'r ymgyrch ffliw yng Nghymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys holl sefydliadau GIG Cymru a phartneriaid eraill o bwys. Mae'r grŵp yn sicrhau bod modd cydweithio'n effeithiol ar raglenni imiwneiddio rhag ffliw drwy'r holl system, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, cyrff proffesiynol, ac awdurdodau lleol, gan gefnogi sgysiau lleol a chenedlaethol am lywodraethu ac atebolrwydd. Mae'n fforwm i gynnal trafodaethau amserol a datrys problemau sy'n ymwneud â ffliw a'r ymgyrch imiwneiddio rhag ffliw yng Nghymru. Mae'r grŵp yn argymhell camau gweithredu ar gyfer ei aelodau ac ystod o randdeiliaid, fel sy'n briodol. Mae'r adborth yn awgrymu bod cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Ffliw Cenedlaethol yn dangos ac yn cefnogi arweinyddiaeth gref. Caiff negeseuon e-bost wythnosol eu hanfon at aelodau yn ystod y tymor ffliw, ac yn ôl y galw cyn y tymor, er mwyn i bawb fod yn ymwybodol mewn da bryd o wybodaeth newydd a'r sefyllfa o ran adnoddau.

Mae Bwrdd Rhaglen COVID-19 wedi cyfarfod ers mis Mehefin 2020 ac mae'n ystyried y rhaglen frechu estynedig rhag fflw a'r materion strategol sy'n ymwneud â chynllunio a darparu'r rhaglen estynedig, ynghyd â'r rhaglen frechu rhag COVID-19.

Mae cynllun cyfathrebu manwl, cynhwysfawr wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd cynllunio a chynnydd misol ar gyfer fflw yn cael eu cynnull gan y Rhaglen Frechu rhag Clefydau Ataliadwy, gyda swyddogion cyfathrebu, Llywodraeth Cymru a'r Cydlynnydd Imiwnedd yn bresennol. Mae nifer o strategaethau (Cyfathrebu, Digidol a Rhanddeiliaid) wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'n anodd ymwneud â rhai grwpiau proffesiynol o bwys, gan fod gwaith ar COVID-19 wedi effeithio ar eu patrymau gwaith a'u gallu i fod ar gael. Fodd bynnag, mae gwaith mewn partneriaeth yn dal i fynd rhagddo gydag eraill fel Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac Asthma UK/British Lung Foundation.

O ran y cyflenwadau o frechlynnau fflw i'w chwistrellu mewn gofal sylfaenol, bydd practisau a fferyllfeydd yn eu harchebu'n uniongyrchol gan weithgynhyrchwyr a chyflenwyr. At hynny, mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau stociau ychwanegol er mwyn brechu niferoedd uwch ac ehangu'r rhaglen.

## **7. Atodiad A: Cam 2 Cynllun Gweithredu Profi Orlhain Diogelu**

Gweler y ddogfen atodedig ar wahân.

# Public Health Wales' Test Trace Protect Implementation Plan

End Stage Assessment of Stage 1

Stage 2 Plan

16 June 2020



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Contents

Contents	2
Introduction .....	3
<b>Section 1 – End of Stage 1 assessment</b>	
1.1 Contact tracing progress in stage 1 .....	7
1.2 Sampling and testing progress in stage 1 .....	8
1.3 Surveillance progress in stage 1 .....	10
1.4 Communications and engagement progress in stage 1 .....	11
1.5 People progress in stage 1 .....	11
1.6 Digital progress in stage 1 .....	12
1.7 International learning and intelligence progress in stage 1 .....	12
1.8 Research and evaluation progress .....	13
1.9 Quality and Safety, Information Governance and Risk Management .....	14
1.10 Finance .....	15
1.11 Relationships .....	16
1.12 Programme Management .....	16
1.13 Variance from Stage 1 Plan .....	16
1.14 Emerging issues from Stage 1 .....	17
<b>Section 2 – Stage 2 Plan</b>	
Stage 2 plan in brief .....	19
Introduction .....	20
2.1 Contact tracing .....	21
2.2 Sampling and Testing .....	23
2.3 Population Surveillance .....	26
2.4 Communications and Engagement .....	31
2.5 People .....	34
2.6 Digital .....	36
2.7 International learning and intelligence .....	37
2.8 Research and evaluation .....	41
2.9 Quality, Safety, Information Governance and Risk Management .....	44
2.10 Finance and supply chain .....	46
2.11 Programme Management .....	48

# Test Trace Protect

## Public Health Wales' Implementation Plan

### Introduction

As the National Public Health Institute for Wales, Public Health Wales has a key role in supporting Welsh Government and the wider system on health protection matters. We host the national health protection service for Wales and as such, have a key leadership role which has been at the forefront of the coronavirus pandemic.

We have provided system leadership throughout the pandemic by providing specialist and expert public health advice, delivery, information, intelligence and support. This has involved working with partners across Wales, the UK and internationally, as well as providing information to the public through a range of channels.

At the request of the Chief Medical Officer, in early May we prepared the *Public Health Protection Response Plan* to provide advice to Welsh Government for the recovery phase. This formed the basis of the Welsh Government *Test Trace Protect* strategy which has directed the system response in Wales for reducing the spread of the virus<sup>1</sup>. Our Stage 1 Implementation Plan (4 May to 8 June) translated the strategy into the Public Health Wales contribution to *Test Trace Protect* and at the close of Stage 1 the first section of this document sets out the progress made in a short time.

Alongside the provision of health protection advice to Welsh Government, Public Health Wales is also:

- ❖ developing and disseminating on a regular basis surveillance and intelligence to the wider system e.g. Covid-19 surveillance reports
- ❖ delivering key public health functions and services such as effective health protection and microbiology outbreak response and management
- ❖ undertaking research, evaluation and analysis of international evidence to inform policy and support the wider system's ongoing response, such as our national public engagement survey and international horizon scanning

Public Health Wales' strategic aim in response to the pandemic is: *"to protect the public, optimise outcomes for individuals and the population, and facilitate the functioning of essential services in Wales as appropriate"*. The underpinning specific objectives are to:

- ❖ continue to monitor and assess the risks to public health in Wales to enable appropriate professional public health support and advice
- ❖ provide leadership and specialist advice on Public Health approaches

---

<sup>1</sup> Public Health Protection Response Plan was published on 21 May <https://phw.nhs.wales/news/covid-19-public-health-wales-health-protection-response-plan-published/>

Test Trace Protect (14 May) <https://gov.wales/test-trace-protect-html>



- ❖ coordinate and enable the delivery of the public health protection response in the next phase of the pandemic

The Implementation Plan has been aligned to the *Test Trace Protect* strategy, to our role as a National Public Health Institute and, also, to our emergency planning arrangements. The Plan has four public health response work streams focussing on:

- ❖ contact tracing
- ❖ surveillance
- ❖ sampling and testing
- ❖ communications and engagement

These work streams are supported by essential 'enablers' including finance, digital, workforce, quality, safety, research and evaluation, and international learning and intelligence. There are also a number of operational 'cells' that are also aligned to our work e.g. the rota cell.

This Plan provides an account of the progress we have made in Stage 1 to 8 June. It also sets out our plan for Stage 2, which runs to the end of August. The Implementation Plan may be required to support activity beyond Stage 2 and this will be incorporated in a Stage 3 Plan later in the year.

We deliberately kept Stage 1 very short. This was largely to ensure that key products were delivered on time. The end of the stage was aligned with a common milestone in *Test Trace Protect*, namely, the start of contact tracing across Wales and specifically the 'Go Live' of the NHS Contact Tracing System (Phases 1 and 2 in the *Test Trace Protect* Operational Note<sup>2</sup>). Our decision to make Stage 2 cover almost three months is a signal that we expect to move into a more stable period. Our plans on pages 19 to 48 show that while we are continuing to develop products and services to support the *Test Trace Protect* strategy, we will be monitoring and improving those areas already delivered.

Stage 1 has been completed successfully. It has involved the production of large number of tangible products, some of which will support our partners, and others will strengthen our internal arrangements to deliver services to the public or the health and care sector. Some key products from across the programme include:

- ❖ the development of an Operating Framework to support contact tracing which went live as planned on 1 June
- ❖ technical and clinical input into the development of the NHS Wales Contact Tracing System which was operational from 9 June
- ❖ establishing the National Contact Centre incorporating a National Health Protection Response Cell
- ❖ successful business case for a new COVID laboratory
- ❖ the eLearning package for contact tracing that went live on 28 May 2020 to the wider system
- ❖ enhanced passive surveillance of virological screening and diagnostic testing in hospital

---

<sup>2</sup> <..\Test Trace Protect\200526 - PHW NWIS WG - TTP Operational Note.pdf>

The first section of this document provides a detailed account of progress by each work stream and also the programme management deliverables for the stage. Inevitably, in a stage of such short duration, some slippage has occurred and this is identified in the document. Stage 2 plans to pick up these products and identify the activities needed for completion.

At the time of writing, those products or activities that have deadlines of between the 3-8 June have been reported as on schedule for completion by the end of the stage.

A number of key products from Stage 1 have benefitted from rapid consultation and feedback and Public Health Wales is grateful for the engagement of partners.

Section 2 of the document sets out the plans for Stage 2 which end on the 31 August. Inevitably, the fluidity and uncertainty that characterises a global pandemic response means that plans are changing rapidly.

# Section 1

## End Stage Assessment of Stage 1

## Section 1

### End stage assessment of stage 1: the 4 May to the 8 June 2020

#### 1.1 Contact tracing progress in stage 1

During Stage 1 Welsh Government published *Test Trace Protect*, its strategy aimed at enhancing health surveillance in the community, undertaking effective and extensive contact tracing, and supporting people to self-isolate where required to do so. The strategy confirmed that Public Health Wales would provide national co-ordination, expert advice, and support on contact tracing methods and priorities. Public Health Wales would also ensure that there are robust all-Wales standards and comprehensive guidance for how contact tracing should operate.

In terms of the operating model for contact tracing in Wales, the *Test Trace Protect* programme expected it to be delivered through regional arrangements with local teams being deployed through Health Boards and Local Authority partnerships. These teams would be hosted and staffed outside of Public Health Wales and would, in the first phases of operation, contact trace individuals who had received a positive test result.

The *Test Trace Protect* strategy is overseen by a Test Trace Protect Strategic Oversight Group established and chaired by Welsh Government with representation from all health boards, local government and Public Health Wales. Several sub-groups were set up reporting to the Oversight Group including a contact tracing group, a digital cell group and a sampling and testing group. Public Health Wales co-chaired the contact tracing group and actively contributed to the delivery objectives of the other groups.

#### Delivery against plans

What we said we would do	What we did
Provide expert advice to establish contact tracing services across Wales	<p>Produced and consulted on an Operating Framework for the delivery of contact tracing</p> <p>Produced revised workforce modelling following the publication of <i>Test Trace Protect</i></p> <p>Developed a suite of materials including:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>❖ Role descriptions for key positions</li><li>❖ Training resources</li><li>❖ Scripts for contact tracing</li><li>❖ Standard Operating Procedures for Contact Tracer, Contact Adviser and Clinical Lead, including escalation between regions</li><li>❖ Letter templates</li></ul> <p>Organised and facilitated two 'walk throughs' (21 and 28 May)</p>

What we said we would do	What we did
Establish a National Contact Centre incorporating a National Health Protection Response Cell	Staffing has been identified to support a medium call volume (1000 calls per day)
Transition the Enclosed Settings Cell into the National Health Protection Response Cell to provide advice on closed settings and support the activities of the health board regional cells	Progress has been slower than planned but this is expected to complete week commencing 15 June
Development of the Customer Relationship Management (CRM) system to support contact tracing	<p>Through the Strategic Oversight Group digital sub-group and working with the NHS Wales Informatics Service (NWIS) and the system developer (Microsoft), Public Health Wales has provided:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Expert advice on the system specification, commissioning and procurement of the CRM</li> <li>❖ Developed workflows, scripts and user stories to inform the product specification and enabled the build and configuration of the CRM adapted for application in Wales</li> <li>❖ Tested the minimum viable product at each stage of its development</li> <li>❖ Actively supported training on the system</li> <li>❖ Worked closely with Welsh Government and NWIS information governance to ensure relevant data sharing agreements are in place prior to the system going live</li> </ul> <p>The Public Health Wales requirements for the content of the national dashboard have been developed and shared with NWIS and Microsoft</p>
Publish an evaluation of contact tracing in the containment phase of the pandemic	A 'Rapid Evaluation of Early Phase 1 covid-19 Contact Tracing Cell' was undertaken

## 1.2 Sampling and testing progress in stage 1

The Sampling and Testing work stream was initially established as a cell as part of the COVID-19 incident management arrangements. The initial focus of the cell / work stream was to prepare NHS Wales for high-volume testing. The scope included:

- ❖ supporting health boards to increase their sampling capacity,
- ❖ improving Public Health Wales laboratory testing capacity for polymerase chain reaction (PCR) antigen and antibody testing (serology)
- ❖ supporting the development of the full end-to-end process that includes referrals for tests (online process); Electronic Test Requesting (ETR) and results notification to patients.

Public Health Wales provides expert advice to the sampling and testing sub-group of the Strategic Oversight Group.

### Delivery against plans

What we said we would do	What we did
<p>Provide expert advice for a single point of access for booking a test</p>	<p>Following the decision by Welsh Government to implement the UK Government online booking portal in Wales Public Health Wales has supported the rapid development of this model</p> <p>Currently keyworkers and the general population are able to book either a home test or a test at a Population Sampling Centre (PSC)</p> <p>Further work is required to enable booking at coronavirus testing units (CTUs) and mobile testing units (MTUs) and ultimately automate the Electronic Test Request process</p> <p>Additionally, the care homes portal has gone online for two health boards with further work needed to fully implement across Wales</p>
<p>Increase sampling capacity by:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Working with health boards and Welsh Government to increase sampling capacity at PSCs, CTUs and MTUs</li> <li>❖ Working with the UK Government Department of Health and Social Care on an approach to improving sampling and testing capacity through additional PSCs and lighthouse laboratories</li> <li>❖ Supporting the mobilisation of Mobile Testing Units (MTUs) with health boards and the military</li> <li>❖ Working with NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) to create a supply chain for self-test swab kits in Wales</li> </ul>	<p>There are currently 20 CTUs, 6 PSCs and 8 MTUs in operation across Wales providing a combined daily sampling capacity of 7,557 (as at w/c the 8 June)</p> <p>Discussions are at an advanced stage for a lighthouse laboratory in Wales. A new PSC is in the process of being set up in Deeside and progress is being made towards a new PSC in Abergavenny. Both are likely to use the full UKG sampling model.</p> <p>There are currently 8 MTUs in operation.</p> <p>There is a supply chain to support sampling in Cardiff City Stadium, the MTUs and some of the PSCs offer both administered and self-swab.</p>
<p>Expand testing capacity by:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>❖ Increasing testing capacity within laboratories</li> <li>❖ Rolling-out medium throughput testing to regional laboratories</li> <li>❖ Rolling-out rapid testing to most acute hospitals</li> <li>❖ Present a business case for a new laboratory facility</li> <li>❖ Rolling-out serological testing in Public Health Wales' laboratories</li> </ul>	<p>Increased capacity by use of various platforms to circa 12,000 per day</p> <p>Installed three Starlet machines in Rhyl, UHW and Singleton. A fourth starlet and six Nimbus machines are planned to be installed in phases starting w/c the 15 June and complete by w/c 6 July.</p> <p>Of the ten medical microbiology sites, eight have a rapid testing platform with plans for the remaining two sites to be fulfilled by end of June 2020.</p> <p>Secured approval and funding for the development of a laboratory at Imperial Park 5, Newport</p>

What we said we would do	What we did
	Approval of a prioritised recruitment plan to support testing including Imperial Park 5
❖ Develop an efficient, automated process for the text notification of results for Wales	Now in use by all but one health board improving the efficiency by which results are received by individuals along with a link to advice contained on our web site which is continually updated

### 1.3 Population Surveillance progress in stage 1

Stage 1 focused on a number of immediate developments and improvements to active and passive COVID-19 surveillance to improve the breadth and depth of analysis available to the Welsh Government's Technical Advisory Group (TAG) and Cell (TAC), as well as strengthen Public Health Wales's COVID-19 surveillance dashboard and reports.

#### Delivery against plans

What we said we would do	What we did
Provide expert analysis and advice to the Welsh Government's Technical Advisory Group (TAG) and Cell (TAC)	Actively contributed to the publication of: Short term forecasts for COVID-19 including estimates of Rt (COVID transmission) and for new hospital admissions (halving times) 'Circuit breaker' indicators for monitoring virus transmission and alerting Welsh Government to additional COVID-waves
Develop new surveillance indicators	New surveillance indicators have been developed: ❖ Hospital and ICU patients with respiratory infections ❖ A weekly mortality surveillance report ❖ Rapid surveillance of mortality in confirmed cases in hospitals and care homes ❖ A weekly enclosed settings surveillance report ❖ Inclusion of genomic data in the Public Health Wales dashboard ❖ Introduction of a weekly epidemiological summary including modelling results and commentary ❖ Introduction of detailed mortality surveillance and analysis using ONS data
Improve the existing Public Health Wales COVID-19 surveillance dashboard	Electronic test request data from new community testing units and routine analysis of care home mortality (using ONS data) has provided enhanced information on reasons for testing

What we said we would do	What we did
Secure Public Health Wales' involvement in the Oxford Phase III COVID vaccination trial	Secure and, recruitment commenced 25 May and vaccination commenced 1 June
Expand the workforce to enable further development of surveillance activities	8.4 wte additional analysts (at Bands 5 and 6) secured through internal staff mobilisation  External recruitment has commenced to fill critical existing and new posts  Other analytical functions of Public Health Wales have been engaged in discrete COVID-19 surveillance projects

## 1.4 Communications and engagement progress in stage 1

During stage 1, Public Health Wales supported Welsh Government following the publication of their *Test Trace Protect* strategy. This has included providing specialist communications, behavioural science and research and evaluation support to existing and future national campaigns.

Using our various channels, we have disseminated key information to support Welsh Government's launch of the test and trace system and to promote the Public Health Protection Response Plan, through stakeholder and social media activity. The purpose of this was to explain the role of Public Health Wales, help the public to understand the public health interventions, and to be clear about their role.

We have also continued to develop and strengthen our internal communication mechanisms with staff. This has involved significant work to scope the implementation of Facebook Workplace, along with regular communications to staff through a variety of different channels.

## 1.5 People progress in stage 1

